2023/2024

Adroddiad Cynnydd Nodau Datblygu Cynaliadwy Prifysgol Bangor

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

1 DIM TLODI

2 DIM NEWYN

3 IECHYD A LLESIANT DA

4 ADDYSG O ANSAWDD

5 CYDRADDOLDEB RHYWIOL

6 DŴR GLÂN A GLANWEITHDRA

7 YNNI FFORDDIADWY A GLÂN

8 GWAITH TEILWNG A THWF ECONOMAIDD

9 DIWYDIANT, ARLOESI A SEILWAITH

10 LLAI O ANGHYDRADDOLDEB

11 DINASOEDD A CHYMUNEDAU CYNALIADWY

12 DEFNYDDIO A CHYNHYRCHU'N GYFRIFOL

13 GWEITHREDU AR Y NEWID YN YR HINSAWDD

14 BYWYD O DAN Y DŴR

15 BYWYD AR Y TIR

16 HEDDWCH, CYFIAWNDER A SEFYDLIADAU CADARN

17 GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH I GYFLAWNI'R NODAU

Cyflwyniad

Y Nodau Datblygu Cynaliadwy

"We need a surge in implementation. Massive investment and more effective partnerships are needed to drive critical transitions across food, energy, digital connectivity and more, unlocking progress right across the Goals.

And underpinning all our efforts must be a more concerted effort to dismantle gender barriers and empower all women and girls – because we cannot expect to achieve the Goals without gender equality."

António Guterres, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig

Mae cynaliadwyedd wrth wraidd Prifysgol Bangor, fel y portreadir yn ein datganiad o weledigaeth yn Strategaeth 2030:

“Prifysgol fyd-eang ei chysylltiadau, sy’n manteisio ar gyfleoedd i lwyddo trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol sy’n seiliedig ar effaith gydag ymrwymiad i gynaliadwyedd.”

Fel cymuned prifysgol, rhaid i ni weithredu mewn modd sy'n sicrhau bod anghenion ein myfyrwyr, ein staff a'n cymuned leol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar allu'r rheini yn y dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i addysgu ac ysbrydoli cenedlaethau’r dyfodol, i wneud ymchwil blaenllaw, i fod yn gyflogwr blaenllaw, ac i gymryd rhan weithredol yn y gymuned.

Felly mae cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Bangor yn bellgyrhaeddol, ac mae'n cynnwys popeth: o iechyd a lles ei staff, i ailgylchu yn ei neuaddau myfyrwyr; o gynnwys y cwricwlwm i'w gweithgareddau ymchwil.

Y Strategaeth Gynaliadwyedd 2030

Tabl Cynnwys

Nid mater o edrych yn ôl yn unig yw adroddiadau cynaliadwyedd

Mae'r Adroddiad hwn yn cyflwyno ein pumed adroddiad Nodau Datblygu Cynaliadwy blynyddol cyhoeddedig i ddangos sampl fach o'r ffyrdd niferus yr ydym yn cyfrannu drwy ymchwil, ymgysylltu â'r cyhoedd, dysgu a myfyrwyr, ac elfennau gweithredol, at 17 Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'r Adroddiad Nodau Datblygu Cynaliadwy hwn yn waith parhaus ar y gweill, ac yn ffordd i Brifysgol Bangor olrhain ei heffaith a'i gwelliannau dros amser.

03 NOD 1: DIM TLODI

05 NOD 2: DIM NEWYN

07 NOD 3: IECHYD A LLESIANT DA

09 NOD 4: ADDYSG O ANSAWDD

11 NOD 5: CYDRADDOLDEB RHYWIOL

13 NOD 6: DŴR GLÂN A GLANWEITHDRA

15 NOD 7: YNNI FFORDDIADWY A GLÂN

17 NOD 8: GWAITH TEILWNG A THWF ECONOMAIDD

19 NOD 9: DIWYDIANT, ARLOESI A SEILWAITH

21 NOD 10: LLAI O ANGHYDRADDOLDEB

23 NOD 11: DINASOEDD A CHYMUNEDAU CYNALIADWY

25 NOD 12: DEFNYDDIO A CHYNHYRCHU'N GYFRIFOL

27 NOD 13: GWEITHREDU AR Y NEWID YN YR HINSAWDD

29 NOD 14: BYWYD O DAN Y DŴR

31 NOD 15: BYWYD AR TIR

33 NOD 16: HEDDWCH, CYFIAWNDER A SEFYDLIADAU CADARN

35 NOD 17: GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH I GYFLAWNI'R NODAU



YMCHWIL

Dim digon ar gyfer yr hanfodion, wrth i'r argyfwng costau byw frathu

Mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl i lawer o bobl yng Nghymru ac mae llawer wedi gorfod torri i lawr ar hanfodion fel bwyd a gwres i gael deupen llinyn ynghyd. Dyma'r canfyddiadau o un o arolygon Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda chydawdur gan academydd o Fangor, o effeithiau costau byw cynyddol.

Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau i dros 2,000 o bobl ledled Cymru yn ymwneud â'u hamgylchiadau ariannol, a oeddent yn teimlo y gallent ymdopi'n ariannol yn ystod yr argyfwng costau byw, a sut roedd yn effeithio ar eu hiechyd a'u hymddygiad o ddydd i ddydd.

Dywedodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr (94%) fod eu costau byw wedi cynyddu yn y chwe mis blaenorol a dywedodd 43% fod sefyllfa ariannol bresennol eu cartref yn waeth nag yr oedd chwe mis yn ôl.

ESRC FESTIVAL OF SOCIAL SCIENCE

Nod: Rhoi diwedd ar dlodi o bob ffurf ym mhobman

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

£5 miliwn o gyllid i fynd i'r afael â heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig Cymru

Mae partneriaeth yn cynnwys Prifysgol Bangor wedi derbyn dros £5 miliwn o gyllid i ymchwilio ac archwilio atebion i heriau gwledig. Bydd ymchwilwyr a llunwyr polisi yn gweithio gyda chymunedau o bob rhan o Gymru wledig i archwilio atebion arloesol i amrywiaeth o heriau mawr a wynebir gan gymunedau gwledig, fel materion fel y "premiwm gwledig" ar dlodi.

Wedi'i hariannu gan UKRI, nod y bartneriaeth ymchwil yw llenwi bylchau tystiolaeth, archwilio atebion arloesol, a gwella'r defnydd o ymchwil i gefnogi polisïau effeithiol i feithrin 'economi lles'.

Bydd yn canolbwyntio ar yr heriau o adeiladu economi adfywiol, cefnogi'r cyfnod pontio sero net, gwella iechyd, llesiant a mynediad at wasanaethau, a grymuso cymunedau a diwylliant, gan gynnwys adfywio'r Gymraeg.

Gŵyl y Gwyddorau Cymdeithasol

Dathliad blynyddol o ymchwil a gwybodaeth am fodau dynol a chymdeithas yw'r Ŵyl Gwyddorau Cymdeithas, a thema allweddol yng ngŵyl Tachwedd 2023 a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor oedd 'llesiant gydol oes'. Mae'r ŵyl yn rhoi sylw i bynciau gwyddorau cymdeithas – o iechyd a lles i droseddu, cydraddoldeb, addysg a hunaniaeth.

Roedd dau aelod o'r panel siaradwyr eleni'n cynnwys ymchwilwyr o Brifysgol Bangor a oedd yn edrych ar Incwm a Lles Sylfaenol Cyffredinol, Hunaniaeth Gofalwyr, ac Anghenion a Disgwrs ynghylch Budd-daliadau.

DYSGU A MYFYRWYR

Ymateb y Brifysgol ar gostau byw

Mae Prifysgol Bangor yn deall bod costau byw yn bryder ymhlith ein myfyrwyr, ac wedi bod yn cydweithio ag Undeb y Myfyrwyr i helpu.

- Rydym yn darparu pryd poeth ar safleoedd Prifysgol o ddydd Llun i ddydd Gwener am £2.
- Mae'r Brifysgol yn parhau â'r cyllid ar gyfer y Cynllun Tlodi ac Urddas Mislif, a ariannwyd yn allanol yn flaenorol drwy fenter Undeb y Myfyrwyr.
- Gostyngwyd prisiau golchi dillad.
- Mae prisiau diodydd yng nghlwb nos Academi wedi eu rhewi ar brisiau 2021/22.
- Mae prisiau tocynnau myfyrwyr ar gyfer Sinema Pontio wedi'u rhewi ar brisiau 2021/22.
- Mae Undeb Bangor wedi sefydlu Llyfrgell Benthyca Dillad Cyfweliad i fyfyrwyr.
- Wnaeth Undeb y Myfyrwyr hefyd cynnal digwyddiad Siop Cyfnewid Costau Byw ym mis Hydref.

Llety Hollgynhwysol & dim costau cudd

Cafodd ein Neuaddau eu gosod yn y 3 uchaf yng Ngwobrau What Uni 2023. Mae'r isod yn gynwysedig yn y gost, efo prisiau yn dechrau o £99 o fis Medi:

- Pob bil (dŵr, gwresogi, trydan).
- Aelodaeth o'r gampfa.
- Digwyddiadau Wythnosol Campws Byw.
- Wi-Fi cyflym.
- Staff diogelwch 24/7.
- Cymorth Mentoriaid.
- Yswiriant ystafell a chynnwys.

Gall myfyrwyr hefyd bod yn rhan o'r Tîm Bywyd Preswyl yn gyfrifol am feithrin cymuned breswyl glos a chefnogi lles yr holl fyfyrwyr sy'n byw yn llety Prifysgol Bangor. Mae'r rôl hon yn elwa o becyn llety gwerth dros £5500.

GWEITHREDIADAU

Cronfa Caledi

Mae'r Brifysgol yn darparu cronfa galedi i gefnogi myfyrwyr i dalu am gostau hanfodol na ellid cynllunio ar eu cyfer. Mae Cronfeydd Caledi yn un o'r ffyrdd rydym yn cefnogi ein myfyrwyr ynghyd â'n Bwrsariaethau, benthyciadau byr dymor a'n grantiau argyfwng. Mae'r gronfa ar gael i fyfyrwyr cofrestredig Prifysgol Bangor - israddedigion neu ôl-raddedigion sy'n astudio cyrsiau llawn neu ran-amser.

Cymorth Ariannol

Mae'r Uned Cymorth Ariannol yn rhan o'r Tîm Cymorth i Fyfyrwyr, a gall yr aelodau staff profiadol roi cyngor, gwybodaeth ac arweiniad ar bob agwedd ar gyllid myfyrwyr.

Gall ein cynghorwyr helpu:

- asesu sefyllfa ariannol a cefnogi i greu cyllideb gwariant a fydd yn diwallu eich anghenion hanfodol.
- gwneud yn siŵr bod myfyrwyr yn cael mynediad at eich holl hawliau bwrsariaeth Cyllid Myfyrwyr a Bangor.
- yn ogystal ag edrych ar ffyrdd i arbed costau.

Mae gennym nifer o systemau cymorth ar waith i helpu gyda phroblemau ariannol gan gynnwys:

- cronfa caledi prawf modd a benthyciadau tymor byr.
- Grantiau Argyfwng a thalebau bwyd pan fo angen dybryd.

Diwrnod Masnach Deg y Byd

Wnaeth Arlwyo'r Brifysgol, Bywyd Preswyl, ac Undeb Bangor dod at ei gilydd i gyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau yn fis Mai i godi ymwybyddiaeth o Fasnach Deg. Dangoswyd cyfres o raglenni dogfen Masnach Deg byr i ddysgu fwy am beth yw cwmni cydweithredol Masnach Deg, a sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar y diwydiant Masnach Deg.

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Lansiad podlediad Llond Ceg ar faes Sioe Frenhinol Cymru

Mae cyfres o bodlediadau Llond Ceg - Bwyd Cymraeg Cynaliadwy wedi cael eu lansio ar stondin Prifysgol Bangor yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd yn Orffennaf.

Nod y podlediad Cymraeg ei iaith, sydd wedi ei gynhyrchu diolch i nawdd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yw cynnig adnodd hyblyg a hygyrch i unrhyw un sydd yn dymuno deall a dysgu mwy am agweddau o gynaladwyedd, gyda'r pwyslais ar fwyd.

Fel rhan o'r gyfres, bydd arbenigwyr sy'n gweithio ar hyd y gadwyn fwyd yn sgwrsio am sut y mae bwyd yn rhan hanfodol o'n tirlun a hunaniaeth, y system fwyd lleol yng Nghymru a'r heriau o ran sicrhau lleihau gwastraff bwyd a chymorth i deuluoedd ac unigolion sydd angen mynediad at fwyd fforddadwy a maethlon.

Podlediad Llond Ceg

Nod: Rhoi diwedd ar newyn, sicrhau diogelwch bwyd a gwell maeth a hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy

YMCHWIL

Darganfod os allai sgil-gynnyrch cloroffyl fod yn ateb cynaliadwy i'r broblem gwerth £50 miliwn o falltod tatws

Mae Prifysgol Bangor yn cydweithio ar brosiect sydd yn cael ei arwain gan gynhyrchydd cloroffyl mwyaf Gorllewin Ewrop, Blankney Estates Ltd, i weld a allai'r swm mawr o gwyr glaswellt y mae'n ei gynhyrchu fel rhan o'r broses cynhyrchu cloroffyl gael ei ddefnyddio fel dewis mwy cynaliadwy i reolaethau ffwngladdiaid presennol ar gyfer malltod tatws hwyr.

Ariennir y prosiect 12 mis gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) drwy'r Rhaglen Arloesi Ffermio, a ddarperir mewn partneriaeth ag Innovate UK. Mae malltod tatws hwyr yn arwain at golledion blynyddol o hyd at £50miliwn i ffermwyr y DU ac fe'i hachosir gan organeb debyg i ffwng (Phytophthora infestans) sy'n achosi difrod i'r dail, gyda'r coesyn a'r tatws yn pydru yn y pen draw.

Mae Blankney Estates yn ffermio 14,000 erw o dir, ac yn tyfu ystod eang o gnydau âr i'w bwyta gan bobl, porthiant anifeiliaid a chynhyrchu ynni. Mae 1,500 erw o'r tir yma'n tyfu math o laswellt o'r enw peiswellt uchel ar gyfer echdynnu cloroffyl, a ddefnyddir mewn ystod o gymwysiadau bwyd, fferyllol a chosmetig, yn bennaf fel lliw gwyrdd naturiol. Yn ystod y broses o echdynnu pigment cloroffyl, cynhyrchir llawer o gwyr glaswellt naturiol sydd wedi yn cael ei daflu.

DYSGU A MYFYRWYR

Myfyrwyr Prifysgol Bangor yn codi storm wrth goginio bwyd am ddim ar y Stryd Fawr

Mae Undeb Bangor, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor, wedi bod yn cydweithio gyda Chyngor Dinas Bangor i ddarparu prydau am ddim i'r rheiny sydd eu hangen.

Cychwynnodd y prosiect yn Medi efo grant o £1,500 i'r prosiect gan Gyngor Dinas Bangor er mwyn prynu offer cegin newydd a llogi'r neuadd.

Mae'r bwyd a weinir yn addas i lysieuwyr a phobl sy'n bwyta cig, ac mae'r prosiect ymhell o'r cysyniad o gegin gawl. Maent yn cynnig prydau maethlon, llenwol a blasus sy'n bodloni pob chwaeth a grŵp oedran. Does dim cwestiynau'n cael eu gofyn wrth i bobl ddod i gael bwyd; yr unig beth sydd ei angen yw awydd bwyd. Mae'r cyfleuster prydau poeth ar agor bob dydd Sadwrn o 3yh tan 6yh yn Neuadd Penrhyn.

Gwobr Hyfforddiant Arloesedd ac Arweinyddiaeth Prifysgol Bangor (BUILT)

Datblygwyd rhaglen BUILT gan staff a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Bangor, ac mae'n dod â myfyrwyr ynghyd i ffurfio timau trawsddisgyblaethol i weithio ar greu datrysiad i her cynaliadwyedd a bwyd. Gwelodd rownd derfynol y rhaglen eleni 34 o fyfyrwyr israddedig ac ôl-radd yn cyflwyno eu cynigion.

Rhoddodd y rhaglen semester o hyd y cyfle i fyfyrwyr ddysgu gwybodaeth fusnes sylfaenol fel rhagweld, cynllunio ac adrodd ar elw/colled, gan ennill gwerthfawrogiad o'r hyn sydd ei angen i ddechrau cwmni a chael profiad o fynd â syniad trwy feddylfryd dylunio i brototeipio at ddefnydd y farchnad o bosib. Enillwyr 2024 oedd 'Tîm Tatws' gyda'u cynnyrch 'Grad Chef', ap sy'n cyfeirio myfyrwyr at gynnyrch a busnesau lleol, gyda nodwedd ryseitiau a fydd yn atal gwastraff bwyd.

GWEITHREDIADAU

75% oddi ar fwyd ffres ar ôl 3:00pm

O Dachwedd, wnaeth y tîm Arlwyo cyflwyno menter newydd lle bydd cost bwyd ffres sydd wedi'i becynnu yn lleoedd bwyta'r Brifysgol yn cael ei gostwng 75% ar ôl 3:00pm ar ei diwrnod olaf o ddefnydd, mae eitemau efo sticeri pinc i fachu bargen.

Data Gwastraff Bwyd

Yn 2023/24 llwyddodd Prifysgol Bangor i ddargyfeirio 100% o'i gwastraff o safle tirlenwi. Wnaeth 7.62% o'n gwastraff ei anfon i safle Treulio Anaerobig lleol yng Ngwynedd o'r enw Biogen Gwyriad. Mae'r gwastraff bwyd yn cael ei anfon i Gwyriad yn hytrach nag i safle sy'n compostio mewn cynhwysydd oherwydd bod y llywodraeth yn cydnabod fod Treulio Anaerobig yn un o'r dulliau gorau o ailgylchu gwastraff bwyd, gan ei fod yn cynhyrchu trydan a gwres yn ogystal â bio-wrtaith, mewn cylch caeedig.



Cyfanswm Gwastraff i bob Llif Gwastraff 2023/2024

Masnach Deg

Mae Prifysgol Bangor wedi ennill statws Masnach Deg ers Medi 2009 trwy wneud ymrwymiad parhaus i gefnogi Masnach Deg. Rydym yn cynnig ac yn cefnogi cynnyrch achrededig Masnach Deg yn ein holl fannau gwerthu, ac yn gweithio tuag at yr achrediad Masnach Deg newydd. Rydym hefyd yn cefnogi myfyrwyr i ymchwilio i Fasnach Deg, cyfiawnder masnach a defnydd moesegol yn eu traethodau hir.

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Cefnogaeth lles chwaraewyr i Bencampwriaeth y Chwe Gwlad dan 18

Wnaeth aelodau o Gyfnewidfa Gwybodaeth Rygbi Prifysgol Bangor (RuKX) cynnal clinigau lles chwaraewyr ar gyfer y timau cenedlaethol sy'n cymryd rhan ym Mhencampwriaethau Chwe Gwlad Merched dan 18 oed yn Ebrill. Roedd y clinigau'n ymdrin â materion sy'n berthnasol ym maes rygbi merched gan ddefnyddio arbenigedd ymchwil o Brifysgol Bangor, gan gynnwys ymwybyddiaeth o gyfergyd ac anafiadau i'r fron ac iechyd mislif.
Roedd y chwaraewyr a fynychodd y clinigau lles yn dod o dimau cenedlaethol Iwerddon, yr Alban, yr Eidal a Chymru. Bydd y data a gasglwyd yn ystod y sesiynau yn cefnogi ymchwil sydd ar y gweill gan RuKX ac yn cael ei ddarparu i'r ffederasiynau cenedlaethol i helpu i wella eu rhaglenni addysg i chwaraewyr benywaidd.

'ADHD Contested'

Yn Mai bu'r Athro Edmund Sonuga-Barke rhoi darlith gyhoeddus yn archwilio goblygiadau'r heriau hyn ar gyfer gwyddoniaeth ac ymarfer yn y dyfodol wrth i ni symud ein pwyslais o 'drwsio' camweithrediad i dderbyn a chefnogi niwrowahaniaeth er mwyn hyrwyddo datblygiad llwyddiannus.

Nod: Sicrhau bywydau iach a hyrwyddo llesiant i bawb o bob oed

YMCHWIL

Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gysylltiedig â sut rydym yn ymgysylltu â gwasanaethau gofal iechyd

Mae ymchwil newydd gan Brifysgol Bangor ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi darganfod bod oedolion a ddioddefodd Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod megis cam-drin plant neu fyw mewn cartref gyda thrais domestig, yn ymgysylltu llai â gwasanaethau gofal iechyd. Gall profiadau plentyndod ddylanwadu ar iechyd, llesiant ac ymddygiadau drwy gydol bywyd unigolyn, a gall dod i gysylltiad â Phrofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod gynyddu'r risg o fabwysiadu ymddygiadau sy'n niweidio iechyd a datblygu salwch corfforol a meddyliol.

Seicolegwyr yn datblygu teclyn newydd i asesu parodrwydd i berfformio'n dda

Ym Mhrifysgol Bangor defnyddiwyd arbenigedd yn y prosesau seicolegol sy'n sail i'r lefelau uchaf o berfformiad dynol i ddatblygu teclyn seicolegol newydd i asesu 'parodrwydd i berfformio'n dda' ym mysg perfformwyr elît ym myd chwaraeon a busnes.

Bydd y Bartneriaeth yn para dwy flynedd ac yn adeiladu ar hanes hir o gydweithio rhwng y cwmni gwasanaethau seicolegol Changing Minds a Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elît Prifysgol Bangor. Mae Changing Minds Performance Services yn gweithio gyda thimau, sefydliadau ac unigolion ar lefel elît, i'w helpu i gyrraedd eu potensial mewn chwaraeon neu berfformio hyd eithaf eu gallu mewn amgylcheddau corfforaethol pwysedd uchel. Mae eu gwasanaethau wedi cefnogi llwyddiant ar y lefel elît ym meysydd pêl-droed, criced, rygbi, a chwaraeon Olympaidd.

DYSGU A MYFYRWYR

Prifysgol Bangor yn Lansio Gradd Fferylliaeth Newydd at Anghenion Gofal Iechyd Lleol a Chenedlaethol

Mae gradd Fferylliaeth newydd Prifysgol Bangor wedi cael sêl bendith, ac mae myfyrwyr ar fin dechrau eu hastudiaethau fis Medi 2025. Y rhaglen radd Meistr pedair blynedd mewn Fferylliaeth (MPharm) yw'r prif lwybr y mae myfyrwyr yn ei ddilyn i ddod yn fferyllwyr.

Wrth i Brifysgol Bangor barhau i dyfu a datblygu Ysgol Feddygol newydd Gogledd Cymru, mae cynnig Fferylliaeth ochr yn ochr â'r rhaglenni Meddygaeth ac Iechyd Cysylltiedig yn rhan o strategaeth y sefydliad i sicrhau bod cyfleoedd i ymgeiswyr lleol fynd i mewn i'r meysydd pwysig hynny a bod graddedigion yn cyflawni anghenion gweithlu Gogledd Cymru a thu hwnt.

Cyn-fyfyriwr Prifysgol Bangor ar restr fer Myfyriwr Nyrsio'r Flwyddyn

Wnaeth un o'r graddedigion y Brifysgol, Katie Bright, cyrraedd rhestr fer Myfyriwr Nyrsio'r Flwyddyn yn y categori anableddau dysgu yng Ngwobrau Student Nursing Times 2024.

Mae Gwobrau'r Student Nursing Times yn amlygu rhagoriaeth ym mhob arbenigedd nyrsio, ac yn gyfle i longyfarch myfyrwyr unigolion yn ogystal â'r darlithwyr, goruchwylwyr ymarfer, prifysgolion, ymddiriedolaethau a sefydliadau preifat sy'n cefnogi myfyrwyr nyrsio yn ystod eu hastudiaethau.

Graddiodd Katie Bright, o Fae Trearddur, Ynys Môn fel nyrs anableddau dysgu o Brifysgol Bangor fis Rhagfyr diwethaf gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf. Mae hi bellach yn nyrs anabledd dysgu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn gweithio mewn uned asesu a thriniaeth ar gyfer cleifion ag anableddau dysgu a salwch iechyd meddwl tra'n magu dau o blant ifanc.

GWEITHREDIADAU

Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr

Mae'r Gwasanaeth Lles yn rhan o'r Gwasanaeth Cefnogaeth a Lles Myfyrwyr yn y Gwasanaethau Myfyrwyr. Mae'r gwasanaeth yn cynnig Cwnsela, Cyngor ar Iechyd Meddwl, Trais Rhywiol a Chefnogaeth Aflonyddu a chyngor ar faterion sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr.

Maent yn cynnal nifer o weithdai/grwpiau/darlithoedd lles yn ystod y flwyddyn academaidd, gan ganolbwyntio ar:

- Gweithdy Hunanofal;
- Celf er Lles;
- Gweithdai Celf Adfyfyriol;
- Sgiliau Rheolaeth Emosiynol.

Gweithdai 'Edrych ar ôl dy Fêts'

Fel rhan o'n Strategaeth newydd Iechyd Meddwl a Lles dan Arweiniad Myfyrwyr, mae Prifysgol Bangor yn cyflwyno hyfforddiant ar gyfer y gweithdai 'Edrych ar ôl dy Fêts' i fyfyrwyr ar draws y brifysgol. Mae gennym 10 aelod achrededig o staff y brifysgol o gefndiroedd gwahanol a fydd yn cyflwyno'r hyfforddiant.

Bwriad y gweithdai yw cefnogi a grymuso myfyrwyr sy'n cefnogi ffrindiau neu gyd-letywyr sy'n profi problemau iechyd meddwl. Mae'r gweithdy yn rhoi cyngor i chi ar sut i wybod pan fo ffrind yn cael trafferth o bosib, edrych ar dechnegau cyfathrebu, atgyfeirio a ffiniau, hunanofal, ac edrych ar sut i ofalu amdanoch chi'ch hun wrth gefnogi ffrind.

YMCHWIL

COVID yn achos 'saib' o ran datblygu sgiliau iaith – adroddiad

Roedd rhai plant ysgol yn teimlo bod pandemig Covid wedi achosi "saib" o ran datblygu sgiliau Cymraeg, yn ôl ymchwil gan Brifysgolion Bangor ac Aberystwyth. Roedd yr ymchwil yn archwilio profiadau dysgwyr o deuluoedd di-Gymraeg a oedd mewn addysg Gymraeg, a chanfyddiadau eu rhieni, yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus, yn enwedig wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn rhan o'r astudiaeth, cafodd y disgyblion a'u teuluoedd eu cyfweld am eu profiadau o ddysgu gartref yn ystod COVID.

Mae canfyddiadau'r ymchwil yn nodi gwerth cryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn hwyluso'r broses bontio. Maent hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd asesu sgiliau Cymraeg disgyblion rhwng cyfnodau allweddol - er enghraifft, wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd - er mwyn canfod unrhyw angen am gymorth. Mae'r astudiaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol, a defnyddio cyfathrebu dwyieithog - er enghraifft, darparu rhestrau o'r termau allweddol a fyddai'n cynorthwyo rhieni i gael gafael ar adborth a'i ddeall. Tynnir sylw hefyd at bwysigrwydd cynyddu'r cyfleoedd allgyrsiol i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn yr ysgol a'r tu hwnt iddi.

Nod: Sicrhau addysg gynhwysol a theg o ansawdd a hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Diwrnod Eco-Wyddoniaeth i Ysgolion

Bu'r Diwrnod Eco-Wyddoniaeth i Ysgolion yn Fawrth cyflwyno disgyblion ysgol i ystod eang o feysydd a disgyblaethau gwyddonol i ysbrydoli ac addysgu'r disgyblion i gymryd rhan mewn gwyddoniaeth. Wnaeth y diwrnod cynnwys y canlynol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 a 8 o ysgolion lleol:

- Trafodaeth ar 'Ragfarn anwybodus mewn gwyddoniaeth'
- Sesiynau rhyngweithiol gyda staff y Brifysgol efo disgyblion ysgol yn cael y cyfle i ddysgu, gofyn cwestiynau a chymryd rhan mewn nifer o arddangosfeydd gan gynnwys Co-Lab, M-SParc, Prosesu Signalau Digidol, Sefydliad Dyfodol Niwclear, Roboteg a Technocamps.

Myfyrwyr Lefel A o bob rhan o Ogledd Cymru yn cymryd rhan mewn Diwrnod Ymchwilio i Lofruddiaeth

Cafodd myfyrwyr o ysgolion a cholegau wybod rhagor am sut mae ymchwiliadau'r heddlu'n cael eu cynnal mewn 'Diwrnod Ymchwilio i Lofruddiaeth' drefnwyd gan arweinwyr cyrsiau troseddeg, cymdeithaseg a'r gyfraith ym Mhrifysgol Bangor yn Rhagfyr.

Yn ystod y dydd, clywodd myfyrwyr gan yr heddlu ac arbenigwyr eraill, gan gynnwys John Gittins, Uwch Grwner Gogledd Cymru (Dwyrain a Chanol), y Rheolwr Cymorth Gwyddonol a Ditectif Brif Arolygydd Tîm Ymchwiliadau Mawr Heddlu Gogledd Cymru am eu profiadau eu hunain o weithio ar ymchwiliadau llofruddiaeth.

DYSGU A MYFYRWYR

Prifysgol Bangor yn cael achrediad am y rhaglen ôl-radd gyntaf erioed yng Nghymru i arbenigo mewn anghenion dysgu ychwanegol

Mae Prifysgol Bangor yn cyflwyno cymhwyster addysgu arloesol gyda'r nod o fynd i'r afael â'r prinder presennol o athrawon ledled Cymru sy'n arbenigo mewn cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol a niwroamrywiaeth. Mae'r cwrs ôl-radd hwn, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, newydd gael ei achredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg a bydd yn cael ei gynnig o fis Medi 2024 ymlaen. Mae wedi'i gynllunio i gefnogi rheiny sy'n newydd i'r gweithlu addysg a chymorthyddion sydd â phrofiad o gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac a hoffai yrfa fel athrawon.

Urddo Cymrydorion er Anrhydedd am gyfraniad oes at addysg cyfrwng Cymraeg

Yn Fawrth, yn Brifysgol Bangor, yng Nghynulliad Blynyddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wnaeth yr Athro Delyth Prys, Wyn Thomas, a Linda Wyn yn cael eu hurddo yn Gymrodyr er Anrhydedd y Coleg am eu cyfraniad oes tuag at addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.

Fu'r Athro Delyth Prys derbyn cydnabyddiaeth am ei chyfraniad eithriadol dros drideg mlynedd i faes safoni termau Cymraeg. Yn dilyn cyfraniadau allweddol yn safoni termau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol a Bwrdd yr Iaith, a threulio cyfnod hir fel Pennaeth ar yr Uned Technolegau Iaith yma yng Nghanolfan Bedwyr Prifysgol Bangor, aeth Delyth ati i safoni termau addysg uwch yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bu Wyn Thomas, cael ei dderbyn fel Cymrawd er Anrhydedd am ei gyfraniad allweddol ym Mhrifysgol Bangor yn datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Cerddoriaeth, a hefyd yn cefnogi datblygiadau mewn meysydd eraill yn ystod ei gyfnod fel Dirprwy Is-ganghellor y Brifysgol.

GWEITHREDIADAU

Bangor yn ail yng Nghymru yn Nhabl Cynghrair Prifysgolion y DU

Diolch i adborth gwerthfawr, mae Prifysgol Bangor wedi cyrraedd safle rhagorol o ail yng Nghymru, yn ôl safleoedd prifysgolion StudentCrowd UK a ryddhawyd yn ddiweddar.

Mae tabl cynghrair StudentCrowd yn cael ei lunio trwy adolygiadau a phleidleisiau gan fyfyrwyr sydd wedi astudio, neu sy'n dal i astudio, ym mhob prifysgol. Mae'n adolygu popeth o'r campws a chyfleusterau i glybiau, cymdeithasau, undeb y myfyrwyr, gwasanaeth gyrfaoedd, rhyngrwyd a wifi. Cyflwynwyd dros 570 o adolygiadau o Brifysgol Bangor i'r platfform dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gŵyl Wyddoniaeth Bangor

Yn fis Mawrth dathlodd y Brifysgol, Gŵyl Wyddoniaeth Bangor yn rhan o Wythnos Gwyddoniaeth Prydain a drefnir gan y British Science Association.
Amcanion yr Ŵyl yw:

- Ennyn brwdfrydedd ac ysbrydoli pobl ifanc ynglŷn â gwyddoniaeth; eu grymuso fel dinasyddion, a chreu'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr a pheirianwyr.
- Nodi meysydd o ddiddordeb i'r cyhoedd a hefyd y rheiny sy'n achosi pryder, lle gall gwyddonwyr gyfrannu at drafodaethau er mwyn cyfnewid syniadau ac arbenigedd
- Gwella mynediad y cyhoedd at ymchwil, a symbylu trafodaeth ar ddulliau a chanlyniadau gwyddonol, eu perthnasedd a'r goblygiadau ehangach ar gymdeithas.
- Cynnal ymchwilwyr yn eu hymdrechion i adfyfyrio ar faterion a godir gan eu hymchwil.

YMCHWIL

Prosiect WISGYR

Mae’r prosiect yn astudiaeth ymchwil 3 blynedd a ariennir gan World Rugby, a gefnogir gan Undeb Rygbi Cymru (URC), a ddatblygwyd gan ymchwilwyr o Ysgol Seicoleg a Gwyddorau Chwaraeon ym Mhrifysgol Bangor.

Er mwyn gwneud gêm rygbi yn fwy diogel i ferched, yn fwy pleserus ac i gynyddu cyfranogiad, dwy o flaenoriaethau ymchwil lles chwaraewyr Rygbi’r Byd yw ariannu (i) ymchwil lles chwaraewyr mewn rygbi merched, a (ii) gwyliadwriaeth anafiadau ac ymchwil atal anafiadau ar bob lefel o’r gêm.

Dyma’r astudiaeth ymchwil gyntaf yn fyd-eang i fynd i’r afael â’r diffyg gwybodaeth risg anafiadau sydd ar gael mewn rygbi merched ifanc, yn benodol yn y gêm gymunedol. Drwy roi’r chwaraewr yn gyntaf, rydym yn gobeithio nodi risgiau lles i chwaraewyr benywaidd ifanc, ymchwilio i ffyrdd o leihau’r risgiau hyn a datblygu a rhannu canllawiau arfer gorau.

Dros 3 blynedd byddwn yn cofnodi anafiadau mewn gemau rygbi merched i asesu’r risg. Byddwn yn casglu’r wybodaeth hon ar gyfer merched rhwng 7 a 18 oed o hybiau merched URC, gemau ysgolion uwchradd a chlybiau lleol yn rhanbarth Gogledd Cymru.

Nod: Cyflawni cydraddoldeb rhywedd a grymuso'r holl ferched a genethod

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Menywod mewn Gwyddoniaeth @Bangor - Ysbrydoli Cynhwysiant

Dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol Menywod 2024 gan gymryd thema byd-eang eleni ‘Ysbrydoli Cynhwysiant’ fel cyfle i ddathlu menywod mewn gwyddoniaeth, yn digwyddodd am ddim. Wnaeth y siaradwyr o’n Hysgol Gwyddorau Eigion adlewyrchu ar eu profiadau, eu siwrnai a trafod sut maent yn ysbrydoli cynhwysiant yn eu meysydd:

- Yueng-Djern Lenn, Athro Eigionegydd
- Kodi Edwards yn astudio ar gyfer MSc mewn Bioleg Forol, derbynnydd Ysgoloriaeth Cynhwysol Prifysgol Bangor

The Ghost Reader: cyfrol sy'n adfer cyfraniadau merched i astudiaethau'r cyfryngau

Mae'r gyfrol newydd The Ghost Reader yn cynnig persbectif ffres ar hanes deallusol astudiaethau’r cyfryngau. Ddaru’r The Ghost Reader cael eu golygu gan Dr Elen D. Hristova, Ddarlithydd mewn Ffilm a'r Cyfryngau ym Mhrifysgol Bangor ynghyd ag Athro Aimee-Marie Dorsten, Mhrifysgol Point Park yn Pittsburgh, ac Athro Carol A. Stabile, Mhrifysgol Oregon.

Mae’r llyfr yn adfer ac yn ailgyhoeddi gwaith grŵp amrywiol o fenywod a lafuriodd ar ymylon maes astudiaethau’r cyfryngau wrth iddo ymffurfio yn ystod blynyddoedd ffurfiannol yr ymchwil i gyfathrebu rhwng yr 1930au a’r 1950au.

The Ghost Reader

DYSGU A MYFYRWYR

Data Myfyrwyr 2023/2024

Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb Myfyrwyr yn nodi bod myfyrwyr benywaidd wedi aros ar gyfartaledd o 60% dros y pum mlynedd diwethaf, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU o 57%.

Cyn-fyfyrwraig o Brifysgol Bangor ymysg merched mwyaf dylanwadol y byd

Susan Chomba

Mae graddedigion o Brifysgol Bangor yn gwneud eu marc o amgylch y byd. Pe bai angen prawf, mae un, Susan Chomba, a oedd ymysg y cyntaf i sicrhau gradd Meistr mewn Coedwigaeth Drofannol Gynaliadwy, newydd ei chynnwys ar restr 100 merch fwyaf dylanwadol y byd.

Hefyd wedi eu cynnwys ar y rhestr a gynhyrchir gan y BBC mae Michelle Obama, gwraig cyn-Arlywydd yr Unol Daleithiau; y gyfreithwraig hawliau dynol, Amal Clooney; y peldroediwr a enillodd y Ballon d'Or, Aitana Bonmatí; yr eicon ffeministaidd, Gloria Steinem; a seren Hollywood, America Ferrera.

Mae'r rhestr eleni hefyd yn tynnu sylw at ferched sydd wedi bod yn gweithio i gynorthwyo'u cymunedau i fynd i'r afael â newid hinsawdd a gweithredu i ymdopi â'i effeithiau. Dywed Susan Chomba, sydd bellach yn Gyfarwyddwr Sefydliad Adnoddau'r Byd (World Resources Institute / WRI), fod y fagwraeth dlawd a gafodd yn sir Kirinyaga, yng nghanol Kenya, wedi'i symbylu i wella bywydau pobl eraill. Ei phrif gonsyrn yw diogelu fforestydd, adfer tirwedd a thrawsnewid system fwyd Affrica.

GWEITHREDIADAU

Adroddiad am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2024

Mae'r Adroddiad am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2024 yn dangos mae'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau wedi aros ar 5.7%. Mae'r ffigur hwn yn parhau i fod yn is na ffigur y Deyrnas Unedig (7%) ac yn is na ffigur sector AU y Deyrnas Unedig (9%) am y 7fed flwyddyn yn olynol. Rydym yn cydnabod bod bwlch yn dal i fodoli ac rydym yn canolbwyntio ar leihau ein gwahaniaethau cyflog ymhellach.

Prifysgol Bangor yn ennill gwobr arian Athena Swan i gydnabod gwaith ar gydraddoldeb rhywiol

Mae Prifysgol Bangor wedi ennill gwobr arian sefydliadol Athena Swan. Prifysgol Bangor yw'r ail brifysgol yng Nghymru i ennill gwobr arian; mae llai na 40 o brifysgolion ledled y Deyrnas Unedig wedi ennill gwobr arian.

Fframwaith yw siarter Athena SWAN a ddefnyddir ledled y byd i gefnogi a thrawsnewid cydraddoldeb rhyw mewn ymchwil ac addysg uwch. Gall sefydliadau wneud cais am wobr efydd, arian neu aur. Mae Prifysgol Bangor yn ddeiliad gwobr efydd ers 2011 (adnewyddwyd y dyfarniad yn llwyddiannus yn 2014 a 2018). Er mwyn ennill gwobr arian, mae'n rhaid i sefydliadau ddangos cynnydd a llwyddiant arwyddocaol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Fel rhan o'r cyflwyniad, datblygodd Prifysgol Bangor gynllun gweithredu pum mlynedd sy'n cynnwys wyth maes blaenoriaeth sy'n adlewyrchu ymrwymiad ac uchelgais parhaus y brifysgol i ddatblygu cydraddoldeb rhywiol.

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Tri pheth y gallwn eu gwneud nawr i lanhau afonydd Prydain

Mae afonydd ac arfordiroedd Prydain wedi eu llygru – does dim dianc rhag y ffaith honno – ac mae'r cwmnïau dŵr o dan fwy a mwy o bwysau i wella'r sefyllfa. Yr enghraifft ddiweddaraf ydy fod cwmni cyfreithiol wedi cyhoeddi cynlluniau i gymryd camau cyfreithiol ar y cyd yn erbyn chwe chwmni dŵr mwyaf y DU a hynny oherwydd honiadau ynghylch llygredd dŵr a chodi gormod ar bobl. Mae'r cwmnïau dŵr preifat wedi cyfaddef bod angen iddynt wneud mwy ac mae'n rhaid cadw'r pwysau arnynt i wneud hynny. Ond i unrhyw un sydd eisiau gweld afonydd ac arfordiroedd glanach fedran nhw ddim eistedd yn ôl ac aros am y buddsoddiad hirddisgwyliedig ac am gwelliannau sydd wedi eu haddo, oherwydd mae'r problemau sy'n wynebu dyfrffyrdd Prydain yn llawer mwy na'r problemau a achosir gan y diwydiant dŵr – a bydd angen i sawl rhan arall o gymdeithas a sawl diwydiant gymryd rhan yn datrys y sefyllfa. Mewn erthygl sydd wedi cael cryn sylw mae academydd o Fangor yn manylu ar dri pheth a fyddai'n gwella afonydd ac arfordiroedd Prydain heb fod angen i'r cwmnïau dŵr wneud dim i'w gwireddu:

1. Llai o goncrit, mwy o bridd
2. Datblygu 'arennau' y Deyrnas Unedig
3. Cyfrifoldeb unigol

Nod: Sicrhau bod dŵr a glanweithdra ar gael i bawb a'u bod yn cael eu rheoli'n gynaliadwy

YMCHWIL

Yr Ysgol Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol yn ennill un o 10 project â chyllid i hybu arloesi mewn dyframaeth cynaliadwy

Mae Ysgol Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol Prifysgol Bangor wedi ennill cyfran o gronfa £4.6 miliwn i ddod â'r byd academaidd a diwydiant ynghyd i fynd i'r afael â rhai o'r prif heriau sy'n wynebu dyframaeth cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig. Mae'r grant i Brifysgol Bangor (gwerth £720,000) gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) yn un o 10 project a gyllidir ledled y Deyrnas Unedig.

Bydd ymchwilwyr o'r Ysgol Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol, ynghyd â phartneriaid masnachol Mowi a Scottish Sea Farms yn astudio sut gall rheoleiddio golau helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a achosir gan glefydau heintus ar ffermydd eogiaid. Mae ymchwil blaenorol sy'n sail i'r project wedi dangos bod brithyll ifanc sydd mewn golau parhaus yn llai ymwrthol i barasitiaid ar y croen.

Astudiaeth Fyd-eang yn Datgelu Effaith Helaeth Halogiad Mwyngloddio Metelau ar Afonydd a Gorlifdiroedd

Credir bod crynodiadau o wastraff gwenwynig a allai fod yn beryglus yn effeithio ar oddeutu 23 miliwn o bobl yn ôl astudiaeth arloesol, a roddodd olwg newydd inni o effaith helaeth halogiad mwyngloddiau metelau ar afonydd a gorlifdiroedd ledled y byd.

Mae'r astudiaeth gan sawl awdur yn cynnig dealltwriaeth gynhwysfawr o'r heriau sydd i'r amgylchedd ac i iechyd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau mwyngloddio metelau.

DYSGU A MYFYRWYR

Prifysgol Bangor yn gartref i ganolfan newydd i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr amgylcheddol

Mae Prifysgol Bangor wedi'i henwi'n bartner mewn un o bedair Canolfan Hyfforddiant Doethurol newydd i hybu arbenigedd y DU mewn atal llifogydd, adfer gwlyptiroedd, mwynau critigol ac ansawdd dŵr croyw.

Bydd y canolfannau a ariennir gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) yn addysgu'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr PhD a fydd yn mynd ymlaen i adeiladu gyrfaoedd mewn ymchwil, busnes a gwasanaeth cyhoeddus. Bydd pob canolfan yn cael cymorth o £2.6 miliwn.

Mae Prifysgol Bangor yn un o bum partner sy'n gartref i'r Ganolfan Hyfforddiant Doethurol mewn Systemau Dŵr Digidol Amser Real ar gyfer Diogelu Iechyd yr Amgylchedd (RED-ALERT CDT), dan arweiniad Prifysgol Caerfaddon.

Astudio

Mae ein modiwl Ecosystemau Dŵr Croyw yn rhoi rhagarweiniad i ecosystemau dŵr croyw, mathau o gynefinoedd, geomorffoleg/hydroleg a strwythur ecosystemau dŵr croyw, dosbarthiad llynnoedd, afonydd a gwlyptiroedd, cymunedau a chydberthnasau dŵr croyw, effeithiau dynol ar ddyfroedd croyw ac ymagweddau at gadwraeth ac adferiad, ecoleg pysgod, asesu a rheoli bywyd ac economeg pysgodfeydd a gwasanaethau ecosystemau a sut i'w rheoli.

Mae'r modiwl Cynllun Rheoli yn addysgu myfyrwyr i werthuso'n feirniadol yr arferion gorau ar gyfer cynnal ansawdd dŵr gan gyfeirio at safonau rhyngwladol, gwerthuso effeithiau tebygol newidiadau arfaethedig mewn gweithgarwch amaethyddol oherwydd gwahanol ysgogiadau polisi, a gwerthuso 'arferion gorau' o ran ymyriadau a gynlluniwyd i fynd i'r afael ag ansawdd dŵr dalgylchoedd.

GWEITHREDIADAU

Ailddefnyddio Dŵr

Cynlluniwyd adeilad Canolfan Amgylchedd Cymru gyda system cynaeafu dŵr glaw. Mae'r dŵr a gesglir gan yr adeilad yn cael ei ddefnyddio i gyflenwi dŵr i'r holl doiledau yn yr adeilad.

Mae Gardd Fotaneg Treborth a Chanolfan Ymchwil Henfaes ill dau yn defnyddio casgenni dŵr i gasglu dŵr glaw at ddibenion dyfrio planhigion. Mae gan Ardd Fotaneg Treborth gapasiti casgen ddŵr o dros 6,000 litr sy'n cael ei ddefnyddio i wrthbwyso'r defnydd o ddŵr glân i ddyfrio planhigion. Yn 2023/24 cynaeafodd y Brifysgol dros 110m3 o ddŵr glaw ar draws ei safleoedd.

Mae Canolfan yr Amgylchedd Cymru yn casglu dŵr glaw ar gyfer fflysio toiledau

Defnydd Dŵr

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, defnyddiodd Prifysgol Bangor fwy na 110,000 metr ciwbig o ddŵr. Mae'r Brifysgol yn gosod targedau iddi'i hun i leihau'r defnydd o ddŵr fel rhan o'i System Rheoli Amgylcheddol. Rhwng 2005 a 2024, gostyngwyd cyfanswm y defnydd o ddŵr 45.0% fesul arwynebedd llawr m2.



Defnydd Dŵr Prifysgol Bangor

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Mwyngloddio ein ffordd allan o'r argyfwng hinsawdd: risg amgylcheddol bosib yn gysylltiedig â'n hymgais ar gyfer technoleg garbon isel

Yn Ionawr wnaeth yr Athro Graham Bird, ddaearyddwr ffisegol a geocemegydd amgylcheddol rhoi darlith agoriadol am ddim. Wnaeth y cyflwyniad esbonio'r cynnydd yn y galw am fwynau i adnoddau a thechnoleg ynni isel, yn rhoi enghreifftiau o'r effeithiau amgylcheddol a allai ddeillio o'r ymgais, ond hefyd y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran atal ac adfer effeithiau o'r fath.

M-SParc - Datgelu Cynllun am Ail Adeilad

Prifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai (M-SParc) yn datgelu cynlluniau am ail adeilad ar safle M-SParc a gynlluniwyd i gadarnhau Gogledd Cymru fel pwerdy ar gyfer arloesi carbon isel. Bydd yr ail adeilad yn ganolbwynt yn y sector carbon isel. Agwedd allweddol ar y project yw twf ymchwil carbon isel y Brifysgol, gan gynnwys y Sefydliad Dyfodol Niwclear (NFI). Bydd y buddsoddiad yn creu ecosystem arloesi bwerus i bontio'r bwlch rhwng ymchwil academaidd a chymwysiadau'r byd go iawn, a bydd yn denu'r doniau gorau a buddsoddiadau pellach trwy gynnwys labordy dadansoddi deunyddiau pwrpasol.

Nod: Sicrhau bod ynni fforddiadwy, dibynadwy, cynaliadwy a modern ar gael i bawb

YMCHWIL

Prifysgol Bangor i gydweithio â Rolls-Royce ar ynni niwclear ar gyfer y gofod

Mae Prifysgol Bangor yn parhau â'i pherthynas â Rolls-Royce ym maes technoleg ynni niwclear ar gyfer y gofod. Mae Rolls-Royce wedi sicrhau cyllid gan Asiantaeth Ofod y DU o dan Raglen Arloesi Genedlaethol y Gofod (NSIP), fydd yn rhoi mwy o gefnogaeth i'r cwmni ddatblygu ei dechnoleg ynni niwclear ar gyfer y gofod. Bydd y dyfarniad newydd o £4.8m yn gymorth sylweddol i hybu datblygu ac arddangos technolegau allweddol cysylltiedig â micro-adweithyddion niwclear ar gyfer y gofod. Dros y 18 mis nesaf, mewn cydweithrediad â phartneriaid academaidd o Brifysgol Rhydychen a Bangor, bydd y project yn datblygu cynllun, galluoedd sylfaenol a thechnolegau allweddol yr holl system. Bydd y rhaglen yn helpu i gynyddu cyfranogiad y DU mewn marchnadoedd sy'n datblygu o ran ynni niwclear ar gyfer y gofod ac yn dangos yn glir bod y DU yn gallu ac yn barod i ddechrau gweithio ar ddyluniad manwl.

Gallai rhai gwledydd ddiwallu eu holl anghenion trydan o baneli solar arnofiol, yn ôl ymchwil

Pan ystyriwyd y ffigurau fesul gwlad, gallai pum gwlad ddiwallu eu holl anghenion trydan o baneli ffotofoltäig arnofiol (FPV), gan gynnwys Papua Gini Newydd, Ethiopia a Rwanda. Byddai eraill, fel Bolivia a Tonga, yn dod yn agos iawn, gan ddarparu 87% a 92% o'r galw am drydan. Gallai llawer o wledydd, yn bennaf o Affrica, y Caribî, De America a Chanolbarth Asia, fodloni rhwng 40% a 70% o'u galw trydan blynyddol trwy baneli ffotofoltäig arnofiol. Mae FPV yn rhyddhau tir ar gyfer defnyddiau eraill ac mae'r dŵr yn cadw paneli yn oerach, ac mwy effeithlon.

DYSGU A MYFYRWYR

Myfyrwyr ôl-radd Bangor i chwarae rhan hollbwysig mewn ymchwil ynni niwclear newydd

Mae'r cyfraniad pwysig sydd gan Brifysgol Bangor i'w wneud o ran gwaith ymchwil ym maes tanwydd niwclear wedi'i gadarnhau'r wythnos hon wrth i'r Labordy Niwclear Cenedlaethol (NNL) gyhoeddi buddsoddiad o £9.35 miliwn mewn dau brosiect: canolfan arloesi a dylunio cyfleuster profi.

Bydd yr NNL yn gweithio gyda phartneriaid diwydiannol ac academaidd, gan gynnwys Prifysgol Bangor, i gefnogi datblygiad galluoedd tanwydd niwclear yn y Deyrnas Unedig trwy greu Canolfan Arloesi Wraneg.

Mae'r Ganolfan Arloesedd Wraneg yn bartneriaeth ddiwydiannol ac academaidd i gefnogi datblygiad galluoedd tanwydd yn y Deyrnas Unedig. Cyflawnir hyn trwy oruchwylio cyfres o brosiectau ymchwil ar lefel ôl-ddoethurol ac ar lefel gradd meistr gyda phrifysgolion sy'n bartneriaid i'r NNL gan gynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Manceinion. Bydd prosiectau ymchwil yn cynnwys cyflenwad tanwydd i Adweithyddion Dŵr Ysgafn, cadwyn gyflenwi HALEU, galluoedd ffabrigo tanwydd i Adweithyddion Modiwlaidd Datblygiedig a chynyddu galluoedd cynhyrchu tanwydd y Deyrnas Unedig.

NUCLEARFUTURES Bangor

Astudio

Mae ein Modiwl Ynni Adnewyddadwy Morol yn galluogi myfyrwyr i werthuso'n feirniadol rôl y diwydiant ynni adnewyddadwy morol, gan gynnwys ei statws presennol a'r heriau i'r dyfodol, a deall effeithiau amgylcheddol a daearegol echdynnu ynni adnewyddadwy morol.

GWEITHREDIADAU

Gweinidog yn ymweld â'r Prince Madog wrth i'r llong gael ei hôl-osod â system werdd

Mae gwaith gwerth £5.5 miliwn i ôl-osod system werdd gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar long ymchwil Prifysgol Bangor ar y gweill. Ar hyn o bryd mae gwaith ôl-osod, a fydd yn para dwy flynedd, yn cael ei wneud i'r llong i osod system gyriant hydrogen ynddi i weithio ochr yn ochr â'r brif injan disel gan alluogi gweithrediad heb unrhyw allyriadau wrth forio'n araf neu yn ystod siwrneiau byrion. Mewn gweithrediad arferol, bydd yn lleihau allyriadau hyd at 60%.

Defnydd Ynni ym Mangor

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, defnyddiodd Prifysgol Bangor oddeutu 31.8 miliwn kWh (31.8 GWh) o ynni. Roedd y rhan fwyaf o'r egni hwn (17.26 miliwn kWh, tua 54.1%) ar ffurf nwy naturiol ar gyfer gwresogi adeiladau a darparu dŵr poeth. Cyfanswm yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â defnydd y Brifysgol o nwy naturiol oedd 3,157 tunnell CO2e* ar gyfer 2023/24. Trydan ar gyfer goleuadau, cyfrifiaduron ac offer arall oedd y math mwyaf arwyddocaol nesaf o ddefnydd ynni yn y Brifysgol (14.0 miliwn kWh oddeutu 44.0%). Roedd y 1.9% arall o'r defnydd o ynni ar ffurf LPG ac Olew Gwresogi, i ddarparu gwres i'n hadeiladau nad ydynt wedi'u cysylltu â phrif gyflenwad nwy. Cynhyrchwyd 134,786.40 kWh ychwanegol gan baneli solar ar y to.



Cyfanswm Defnydd Ynni Prifysgol Bangor



YMCHWIL

Academydd yn ennill gwobr Association of European Operational Research Societies

Mae Dr Chrysovalantis Vasilakis, sy'n uwch ddarlithydd mewn economeg, wedi ennill gwobr yr Association of European Operational Research Societies (EURO) am bapur gorau'r European Journal of Operational Research (EJOR) yn y categori Theori a Methodoleg.

Mae'r papur ag ysgrifennodd ar y cyd ag academyddion eraill, Forecasting and planning during a pandemic: COVID-19 growth rates, supply chain disruptions, and governmental decisions, yn trafod sut y chwaraeodd ymchwil weithredol ran hanfodol wrth gynorthwyo llunwyr polisi yn ystod y pandemig COVID-19. Drwy ddefnyddio data o sawl gwlad, datblygwyd offer dadansoddi rhagfynegol i ragweld cyfraddau twf COVID-19 a'r galw am gynhyrchion/ gwasanaethau yn ystod y pandemig. Defnyddiwyd modelau amrywiol gan gynnwys rhai ystadegol, epidemiolegol, dysgu peirianyddol, a dull hybrid ar gyfer gwneud rhagolygon. Roedd y canlyniadau'n cynnig mewnwelediadau gwerthfawr i gefnogi gwell penderfyniadau ar gyfer clefydau pandemig parhaus a rhai yn y dyfodol.

Mae Dr Vasilakis hefyd yn gyd-awdur ar bapur ac iddo'r teitl: The impact of finance on income inequality: a threshold analysis.

Nod: Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy, cynhwysol a chyson, cyflogaeth lawn a chynhyrchiol a gwaith o safon i bawb

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Ymgynghori â busnesau Cymraeg am ddefnyddio pŵer eu data

Mae Ysgol Busnes Bangor yn defnyddio ei harbenigedd mewn dadansoddeg data i helpu cwmnïau Cymreig i gael mewnwelediadau gwerthfawr a thyfu busnesau cynaliadwy.

Mae tîm o arbenigwyr mewn dadansoddeg data a chyllid o Ysgol Busnes Bangor yn datblygu gwell dealltwriaeth o sut mae busnesau Gogledd Cymru yn defnyddio dadansoddeg data ar hyn o bryd i lywio penderfyniadau a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol i ehangu a datblygu eu galluoedd o ran dadansoddi data. Mae'r cynllun yn bosib diolch i gyllid sylweddol gan gynllun Cymorth Arloesedd Clyfar Hyblyg (S_FIS) Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi Ymchwil, Datblygu ac Arloesi a yrrir gan alw.

Pennaeth Ysgol Prifysgol Bangor yn arwain galw i ddatblygu sgiliau'r gweithlu sgrin a theledu nawr ac i'r dyfodol

Yr Athro Ruth McElroy wnaeth arwain sesiwn banel yng Nghynhadledd 'Concro'r Byd' – digwyddiad ar y cyd rhwng Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU, S4C a Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) yn Brifysgol Bangor yn Dachwedd. Ymysg y panelwyr yn y sesiwn ar y 'Darlun Mawr' oedd Anwen Griffiths, cyfreithiwr cyfryngau gyda Lee & Thompson, yr actor, cynhyrchydd a chyfarwyddwr Celyn Jones, a Lee Walters o Media Cymru. Cafwyd trafodaeth frwdfrydig ar y materion allweddol sy'n wynebu cwmnïau cynhyrchu gan gynnwys cyllid a nawdd, cyn symud ymlaen i'r agenda sgiliau.

DYSGU A MYFYRWYR

O Afghanistan i Ynys Môn: Masi'n gwneud gwahaniaeth trwy interniaeth i raddedigion sy'n paru sgiliau a swyddi

Mae cyflogwyr sy'n chwilio am weithwyr talentog yn Ynys Môn, Gwynedd a Sir y Fflint yn cael hwb ariannol diolch i fenter interniaethau newydd i raddedigion sy'n paru sgiliau a swyddi. Ariennir y fenter trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig, sy'n rhan o agenda 'Codi'r Gwastad' Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac sy'n cael ei hwyluso gan Brifysgol Bangor.

Masi Jahan, sy'n hanu'n wreiddiol o Afghanistan, yw un o'r graddedigion cyntaf o Brifysgol Bangor i ddechrau ar un o'r lleoliadau 'Talebau Talent' 12-wythnos. Mae wedi gallu rhannu ei arbenigedd mewn dadansoddeg data a delweddu gyda BIC Innovation, sydd wedi'i leoli yn M-SParc. Yn ystod yr interniaeth, y caiff ei dalu am ei gwneud, mae'n ymgymryd â gwaith ymchwil a datblygu gwerthfawr i'r ymgynghoriaeth busnes, a hefyd yn ennill profiad hanfodol yn y gweithle yn dilyn gwneud MSc Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Bangor.

Ganolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP) yn cyd-gynnal hyfforddiant Profi a Mesur Systemau Cyfathrebu gyda Keysight

Ymunodd Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP) y Brifysgol â Keysight Technologies, cwmni sy'n arwain y farchnad ym maes dylunio, efelychu a datrysiadau trwy brofion, i gyflwyno seminar hyfforddi undydd ar dechnegau profi a mesur ar gyfer systemau cyfathrebu. Cafodd myfyrwyr peirianneg electronig, ymchwilwyr, a chwmnïau telathrebu lleol ddarlithoedd technegol gan arbenigwyr Keysight, ar bynciau megis gofal a chynnal a chadw offer, i leihau risg prawf a gwella cywirdeb mesuriadau. Caiff y seminar hyfforddi ei chyflwyno'n flynyddol am bum mlynedd a'r nod yw hybu sgiliau a chyflogaeth leol, a chyfrannu yn y pen draw at lesiant economaidd a chymdeithasol y gymuned.

GWEITHREDIADAU

Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn dîm o weithwyr proffesiynol ac ymroddedig sydd wedi ymrwymo i'ch helpu i gyflawni eich potensial o ran gyrfa yn ystod eich cwrs ac ar ôl graddio. Maent yn darparu amrywiaeth am ddim o wasanaethau a chefnogaeth:

- Cyngor cyflogadwyedd un i un;
- Canllawiau CV;
- Gweithdai a Digwyddiadau;
- Cyngor a chefnogaeth menter;
- Cefnogaeth profiad gwaith;
- Interniaethau.

Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd

Wnaeth y digwyddiad cynnwys dros 100 o arddangoswyr a mwy na 50 o siaradwyr, gan ei wneud yn gyfle na ellir ei golli i fyfyrwyr sydd oedd yn archwilio eu hopsiynau gyrfa, rhwydweithio â gweithwyr proffesiynol, a chael mewnwelediad i'r farchnad swyddi.

Mae'r Ffair Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn uchafbwynt i Wythnos Fy Ngyrfa Raddedig, digwyddiad wythnos o hyd sy'n ymroddedig i rymuso ein myfyrwyr ar gyfer trawsnewidiadau llwyddiannus i'r byd proffesiynol. Fel rhan o'r wythnos gyffrous hon, oeddwn yn cynnig wyth dosbarth meistr gyrfa wedi'u cynllunio i wella sgiliau cyflogadwyedd, gan gwmpasu pynciau fel ysgrifennu CV, strategaethau rhwydweithio, paratoi ar gyfer cyfweliad, a chwilio am swydd yn effeithiol. Mae'r ffair ei hun yn gyfle perffaith i roi'r sgiliau newydd ar waith.

YMCHWIL

Prifysgol Bangor yn derbyn Queen's University Prize ym Mhalas Buckingham

Cydnabyddwyd gwaith Prifysgol Bangor ym maes iechyd y cyhoedd wrth i fedal a thystysgrif Queen's University Prize gael eu cyflwyno ym Mhalas Buckingham.

Cafodd y Brifysgol ei chydnabod am ei system newydd ar gyfer gwyliadwriaeth iechyd y cyhoedd drwy ddadansoddi pathogenau niweidiol mewn dŵr gwastraff. Cafodd y system ei ddefnyddio yn genedlaethol yn ystod y pandemig ac mae bellach wedi'i haddasu i fesur ystod eang o ddangosyddion iechyd cyhoeddus.

Gwyddonwyr Bangor yn dylunio tanwydd a fyddai'n cynnal bywyd ar y Lleuad

Mae ymchwil gan Sefydliad Dyfodol Niwclear Prifysgol Bangor ar bweru rocedi a datblygu'r tanwydd sydd ei angen i gynnal bywyd ar y Lleuad wedi cael sylw ar draws y cyfryngau. Mae Prifysgol Bangor yn arwain un o wyth prosiect i chwyldroi ein gallu i deithio ymhellach i'r gofod – a hyd yn oed teithio i'r blaned Mawrth. Bydd y gwaith ymchwil yn gwneud teithio i'r gofod yn fwy diogel ac effeithlon, gan ddefnyddio technolegau rheoli o bell a defnyddio cyflenwadau y gellir dod o hyd iddynt yn y gofod i gynnal gofodwyr a llongau gofod.

Nod: Adeiladu seilwaith cadarn, hyrwyddo diwydiannu cynhwysol a chynaliadwy a meithrin arloesi

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

IONA Minerals yn partneru â Phrifysgol Bangor ar Sebon Eco-Gyfeillgar

Mae cwmni o Ynys Môn yn cymryd y cam nesaf yn eu proses ymchwil a datblygu, diolch i gyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac arbenigedd ymchwil ym Mhrifysgol Bangor. Mae IONA Minerals, yn awyddus i ddatblygu math newydd o far sebon ar gyfer y farchnad ddiwydiannol, sy'n cynnwys y cynhwysion cywir i gael gwared ar olew, saim a grut, ond sydd wedi ei wneud o ddeunyddiau naturiol.

Derbyniodd IONA Minerals, daleb 'midi' gwerth £5,000 i gydweithio â Chanolfan Biogyfansoddion Prifysgol Bangor, sy'n arbenigo mewn datblygu deunyddiau bioseiliedig cynaliadwy a mynd â syniadau o fod yn egin syniad yn y labordy i fod yn gynllun peilot. Ar ôl gwneud rhywfaint o ymchwil eu hunain, roedd IONA Minerals yn awyddus i weithio gyda'r Ganolfan a manteisio ar eu harbenigedd helaeth mewn deunyddiau i symud eu syniadau cynnar iawn o ran cynnyrch yn eu blaenau.

Ymgysylltu – Darlithoedd ar amrywiaeth o bynciau Peirianneg, Cyfrifiadura a Dylunio

Mae'r Gymdeithas IEEE Bangor a'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg yn cyflwyno Ymgysylltu – cyfres o ddarlithoedd ar amrywiaeth o bynciau Peirianneg, Cyfrifiadura a Dylunio. Mae academyddion ac arweinwyr yn rhoi darlithoedd hynod ddiddorol am dechnolegau craidd, syniadau modern, neu egwyddorion allweddol.

DYSGU A MYFYRWYR

Cynhadledd Ymchwilwyr Ifanc Gogledd Cymru

Fel rhan o Gŵyl Wyddoniaeth Bangor yn Fawrth, wnaeth y Brifysgol arddangos y gystadleuaeth Cynhadledd Ymchwilwyr Ifanc Gogledd Cymru (NWYRC), sydd yn gyfle i fyfyrwyr Lefel A ac AS sydd gyda diddordeb yn holl feysydd STEM i gymryd rhan mewn cynhadledd ymchwil gwirioneddol.

Wedi'i seilio ar gynadleddau ymchwil sydd yn digwydd yn fyd-eang, mae NWYRC yn cynnwys thema a sesiwn rhoi crynodeb sydd yn dewis ymgeiswyr i gystadlu yn y digwyddiad prynhawn terfynol lle byddant yn cyflwyno eu pwnc. Y thema ar gyfer 2024 oedd Technoleg y Dyfodol.

Myfyriwr graddedig entrepreneuraidd Michal yn ennill mwy na gradd

Mae Mikołaj Michał Nawrot sydd newydd raddio gyda gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Seicoleg, ac a gafodd ei ysbrydoli gan brofiadau entrepreneuraidd ym Mhrifysgol Bangor, wedi creu ei fusnes ei hun.

Enillodd Michal Wobr Rhagoriaeth Menter 2023 y brifysgol a ddyfernir i un myfyriwr yn unig ym Mhrifysgol Bangor gan y gwasanaeth cyflogadwyedd am ddatblygiad sgiliau menter ragorol yn ystod eu profiad prifysgol.

Erbyn hyn mae Michal wedi creu Synargize, sef ymgynghoriaeth a fydd yn gweithio gyda chwmnïau sy'n defnyddio dull academaidd ar sail tystiolaeth i'w helpu i hybu gwerthiant yn wyddonol drwy'r dulliau marchnata technolegol maent yn eu defnyddio. Ers ffurfio ei fusnes, mae Michał hefyd wedi derbyn cefnogaeth gan Brifysgol Bangor trwy ei chysylltiad ag elfen seicoleg y Rhwydwaith Geltaidd Arloesi Gwyddorau Bywyd Uwch (CALIN) sef rhwydwaith ymchwil ar raddfa fawr a gyllidir trwy gronfeydd Ewropeaidd.

GWEITHREDIADAU

Cydweithio â Diwydiant

Ym Mhrifysgol Bangor rydym wedi ymrwymo i sicrhau dyfodol llewyrchus a chynaliadwy i bawb. Mae partneriaethau gyda busnesau yn ffordd bwysig inni wneud gwahaniaeth i'n cymuned leol a'r DU ehangach.

Rydym yn gweithio gyda busnesau i ddylunio ein rhaglenni addysgu ac i baratoi graddedigion a myfyrwyr ar leoliad a fydd yn galluogi eich busnes i ffynnu.
Mae ein drysau ar agor i bob math o bartneriaethau y gall busnes elwa arnyn nhw – o ddarparu cyfleusterau ac ymgynghoriaeth i greu prosiectau ymchwil pwrpasol, i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a mwy.

Rydym yn cydweithio â Vodafone, Fibrespeed a Comtek i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb digidol trwy ddarparu rhyngrwyd cyflym i fwy na miliwn o bobl.

Mae ein Hadran Iaith wedi cydweithio â llwyfan digwyddiadau ar-lein i helpu datblygu cyfieithu testun a llais ar y pryd.

Disgwylir y ceir sêl bendith i gynlluniau ar gyfer safle ynni llanw mwyaf y byd oddi ar arfordir Gogledd Cymru, a fydd yn cynhyrchu digon o ynni glân i bweru 180,000 o aelwydydd. Bu cydweithio ag Ysgol Busnes Bangor yn allweddol i ddatblygu'r project hwn.

Mae Cufflink, sydd wedi ei lleoli ym Mharc Gwyddoniaeth Menai Prifysgol Bangor, yn arloesi mewn seiberddiogelwch. Mae'r cwmni yn gwneud cynnydd byd-eang o ran cadw gwybodaeth bersonol a busnes yn ddiogel, ac yn gwarchod rhag hacio data, gyda chymorth Prifysgol Bangor.

Mae'r ymchwil yn y Sefydliad Dyfodol Niwclear yn darparu cyfleoedd rhyngwladol, gyda phartneriaid diwydiant byd-eang gan gynnwys Jacobs, Westinghouse, y Labordy Niwclear Cenedlaethol, UKAEA, Tokamak Energy a Vessco Engineering.

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Arolwg iaith newydd i ofyn sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy

Mae Prifysgol Bangor yn ymchwilio i agweddau pobl tuag at y Gymraeg, ei defnydd mewn amrywiol gyd-destunau a sut y gellir hybu ei defnydd ymhellach yng ngogledd orllewin Cymru. Nid yw'n gyfrinach fod y Gymraeg yn iaith dan fygythiad. Er gwaethaf cynnydd yn y boblogaeth, mae niferoedd y siaradwyr wedi haneru fwy neu lai yn y cyfnod hwn, gan ostwng i'w niferoedd isaf ym 1981, gyda ymdrechion i warchod ac adfywio'r iaith wedi gweld llwyddiant amrywiol. Mae Cyngor Gwynedd yn gobeithio y bydd y project yn eu helpu nhw ac eraill i hybu ac annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd, yn enwedig wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor gan gynnwys cyswllt wyneb yn wyneb, galwadau ffôn a gwasanaeth ar-lein.

Canolfan Dementia Gwynedd

Mae gwasanaeth newydd, Canolfan Dementia Gwynedd, wedi ymuno â Hwb Iechyd a Lles Heneiddio a Dementia ym Mhrifysgol Bangor. Yn un o chwe Chanolfan Dementia Gogledd Cymru, mae'r ganolfan yn cynnig gwybodaeth, addysg, cyngor a chymorth hirdymor wedi'u teilwra i bobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr di-dâl, a'u teulu.

Nod: Lleihau anghydraddoldeb o fewn ac ymhlith gwledydd

YMCHWIL

Project i helpu'r gymuned sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain

Gyda grant ymchwil tair blynedd o £1m, bydd tîm rhyngddisgyblaethol o dan arweiniad academydd Brifysgol Bangor, yn gweithio efo'r Cymunedau yng Nghymru sy'n defnyddio Iaith Arwyddo Prydain (BSL) i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Ers pum mlynedd, bu'r ieithydd, Dr Christopher Shank yn gweithio efo tîm, sy'n cael ei arwain ar y cyd gan aelodau'r Gymuned Fyddar, i ymchwilio a nodi'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd, llesiant a mynediad y gymuned sy'n defnyddio BSL yng Nghymru i adnoddau, wybodaeth iechyd, a gwasanaethau. Yn y project newydd, bydd y cyfranogwyr, gan gynnwys aelodau'r gymuned Fyddar, eto'n allweddol o ran cyd-adeiladu, cyd-ddylunio, gweithredu a chloriannu atebion i'r anghydraddoldebau a'r annhegwch mewn iechyd sy'n wynebu pobl fyddar sy'n defnyddio BSL yng Nghymru. Nod y gwaith yw gwella gwasanaethau gofal iechyd drwy gydweithio efo'r Byddar, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, y byrddau iechyd a darparwyr gwasanaethau eraill.

Sŵn anghyfiawnder: sŵn trefol anghyfartal yn effeithio ar bobl a bywyd gwyllt

Mae llygredd sŵn yn anweledig ond gall achosi effeithiau iechyd gwirioneddol. Fel llawer o fathau eraill o lygredd, oherwydd anghyfiawnder systemig, mae'n effeithio ar rai pobl yn fwy nag eraill. Yr astudiaeth hon yw'r gyntaf i archwilio annhegwch sŵn mewn cymunedau 'llinell goch'. Mae'r canlyniadau'n dangos bod lefelau sŵn uwch i'w cael yn fwy cyffredin mewn ardaloedd trefol 'llinell goch' a bod lefelau sŵn o'r fath yn cael effaith andwyol ar ecosystemau trefol i raddau sy'n gymesur â lefel y sŵn.

DYSGU A MYFYRWYR

Mis Hanes Pobl Ddu: Dathlu a Dyrchafu

Wnaeth Prifysgol Bangor cynnal digwyddiad rhad ac am ddim fel rhan o Fis Hanes Pobl Ddu yn Hydref er mwyn Dathlu a Dyrchafu llais a chyfraniadau merched du yng Ngogledd Cymru.

Yr Athro Charlotte Williams OBE, awdur 'A Tolerant Nation?' a'r gyfrol arobryn 'Sugar and Slate', sef hunangofiant yn archwilio hanes cydgysylltiedig Cymru, Affrica a'r Caribî wnaeth siarad. Gwylwyr Marie-Pascale Onyeagoro-Okonkwor yn perfformio'r fonolog 'I am African Everywhere' a dangosiad o'r ffilm fer 'People like us' gan y gwneuthurwr ffilmiau arobryn Lal Davies.

Oedd yna hefyd cydweithrediad rhwng gwasanaeth arlwyo Prifysgol Bangor a'r ddynes fusnes lwyddiannus leol Maggie Ogunbanwo o 'Maggie's African Twist'. Bu hefyd arddangosfa gan staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor yn tynnu sylw at y menywod sydd wedi dylanwadu ar eu gwaith a'u hastudiaethau yn ogystal â chwrdd â myfyrwyr Cymdeithas Affricanaidd Caribïaidd Prifysgol Bangor.

Data Myfyrwyr 2023/2024

Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb Myfyrwyr diweddaraf nododd 8% o fyfyrwyr y DU ym Mangor eu bod yn ddu, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig yn 2023/24. Datgelodd 25% o fyfyrwyr ym Mangor anabledd, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y DU o 15%.

GWEITHREDIADAU

Toiled Newid Lleoedd yn Pontio

Nid yw toiledau hygyrch safonol yn darparu ar gyfer anghenion pob unigolyn ag anableddau. Yn aml mae pobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog, yn ogystal â'r rhai ag anableddau corfforol megis anafiadau i'r asgwrn cefn, dystroffi cyhyrol, a sglerosis gwasgaredig angen offer ychwanegol ac ychwaneg o le i ddefnyddio'r toiled yn ddiogel ac yn gyfforddus. Mae toiledau Newid Lleoedd yn mynd i'r afael â'r anghenion hyn.

Yn wahanol i doiledau hygyrch safonol, mae toiledau Newid Lleoedd yn cynnig nodweddion ychwanegol a dylid eu darparu ochr yn ochr â thoiledau hygyrch rheolaidd. Mae gan Brifysgol Bangor doiled Newid Lleoedd yng Nghanolfan Celfyddydau Pontio.

Y Brifysgol yn ymuno â dathliadau PRIDE

Wnaeth y brifysgol dangos ei chefnogaeth i'r gymuned LHDTC+ drwy chwifio'r faner enfys yn ystod dathliadau mis Pride. Mae Prifysgol Bangor efo Rwydwaith LHDTC+ ar gyfer staff a myfyrwyr. Mae'r Rhwydwaith yn agored i unrhyw un sy'n gweithio neu'n astudio ym Mhrifysgol Bangor ac sy'n ystyried eu hunain yn lesbiad, hoyw, deurywiol, traws, cwiar neu'n cwestiynu eu rhywioldeb, ynghyd â ffrindiau a chynghreiriaid y gymuned.

Digwyddiadau Mis Hanes Pobl Dduon

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Prifysgol Bangor yn croesawu pobl ifanc ar gyfer seremoni graddio Prifysgol y Plant

Wnaeth dysgwyr ifanc o Gwynedd ac Ynys Môn ymgynull yn Pontio, Bangor yn Chwefror ar ôl llwyddo i gwblhau amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau dysgu allgyrsiol fel rhan o fenter Prifysgol y Plant. Mae cynllun ysbrydoledig Prifysgol y Plant yn dathlu'r arfer o gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a chyfleoedd y tu allan i oriau ysgol trwy annog plant a phobl ifanc i roi cynnig ar brofiadau dysgu newydd, mewn ymgais i feithrin cariad gydol oes at ddysgu a dyrchafu eu dyheadau. Wnaeth disgyblion o 39 o ysgolion ledled Gogledd Cymru graddio mewn pedair seremoni, lle dathlwyd eu llwyddiannau o flaen eu cyd-ddisgyblion, eu teuluoedd a'u hathrawon.

Fel rhan o ddigwyddiad Bangor, oedd yna adloniant arbennig a gweithgareddau, gan gynnwys perfformiad gan Ysgol Bro Lleu gyda Colin Daimond o drymiau Bloco Swn, un o Gyrchfannau Dysgu'r cynllun, a bydd Ysgol Llandegfan yn perfformio Anthem Prifysgol y Plant ysgrifennodd y plant gyda'r Welsh Whisperer yn eu hysgol. Oedd yna hefyd cyfle i ddysgu clocsio a cherddoriaeth gan y grŵp gwerin AVANC, ac i roi tro ar ddysgu sgiliau syrcas gyda Circo Arts.

Nod: Gwneud Dinasoedd yn Gynhwysol, Diogel, Gwydn a Chynaliadwy

YMCHWIL

Astudiaeth yn dangos y defnydd o wyddoniaeth gymunedol fel dull cadwraeth o amcangyfrif poblogaethau bywyd gwyllt

Mae amcangyfrif poblogaethau bywyd gwyllt yn hanfodol i ymdrechion cadwraeth. Maent yn galluogi cadwraethwyr i osod nodau, monitro camau rheoli a gwerthuso llwyddiannau ym maes cadwraeth. Mewn astudiaeth, mae ymchwilwyr wedi arddangos ddull cost-effeithiol o amcangyfrif maint poblogaethau gan ddefnyddio cyfuniad o ddata o wyddoniaeth gymunedol sydd ar gael am ddim a niferoedd bach o arolygon strwythuredig.

Mae edrych ar fyd natur mewn mannau trefol yn gallu gwneud lles i chi

Roedd yr astudiaeth, gan Brifysgol Bangor a Sefydliad Technoleg Technion-Israel, yn cynnwys trigolion trefol, a dangosodd bod rhoi sylw gweledol i wyrddni, yn hytrach nag adeileddau gwneud, yn gallu lleddfu pryder a gwella teimladau adferol. Mae'r canfyddiadau hynny'n cynnig arweiniad gwerthfawr i ddylunwyr trefol a phenseiri, sy'n awgrymu y gall integreiddio mwy o nodweddion naturiol yn nhirweddau dinasoedd chwarae rhan allweddol o ran gwella lles meddyliol.

Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn croesawu mwy o goed a blodau gwyllt yn eu trefi

Mae prosiect cydweithredol diweddar rhwng Prifysgol Bangor a Chanolfan Ecoleg a Hydroleg y Deyrnas Unedig (UKCEH) wedi dangos bod y rhan fwyaf o bobl eisiau mwy o natur fel coed a blodau gwyllt yn eu trefi a'u dinasoedd. Dangosodd y canlyniadau fod 73% o bobl eisiau mwy o goed, a 75% eisiau mwy o ddolydd blodau gwyllt.

DYSGU A MYFYRWYR

Amgueddfa Hanes Natur Brambell

Bu Amgueddfa Hanes Natur Brambell, y Brifysgol ar agor yn Dachwedd i'r cyhoedd, er mwyn dysgu mwy am y sbesimenau sydd yna. Oedd yna gyfle i ofyn cwestiynau i'r myfyrwyr, a hefyd cornel gweithgareddau i blant o bob oedran. Oedd y digwyddiad yma'n rhan o Ŵyl Amgueddfeydd Cymru wnaeth cymryd lle o 28 Hydref tan 5 Tachwedd.

Mae'r Casgliad Sŵoleg yn cynnwys tua 40,000 o sbesimenau, efo tua 500 sbesimen yn cael eu harddangos yn yr Amgueddfa Hanes Naturiol, yn Adeilad Brambell. Cychwynnodd y Casgliad Sŵoleg fel adnodd dysgu ac fe'i defnyddir hyd heddiw. Mae'r casgliad cyfareddol hwn yn ysbrydoliaeth i'r Brifysgol a'r gymuned ehangach.

Mae'r casgliad yn cynnwys ysgerbydau, penglogau, tacsidermi, cyrn carw, wyau a sbesimenau wedi'u cadw mewn hylifau. Mae uchafbwyntiau yn cynnwys cyrn yr elc Gwyddelig sydd oddeutu 7500 oed, ysgerbwd cythraul Tasmania, oen gyda dau ben, cacapo a chrwban Galapago. Mae rhai o'r sbesimenau a gaiff eu harddangos bellach dan fygythiad neu'n ddiflanedig.

Astudio

Mae gwaith cymdeithasol yn newid bywydau ac mae gyrfa mewn gwaith cymdeithasol yn amrywiol ac yn rhoi boddhad. Mae ein MA 2 flynedd mewn Gwaith Cymdeithasol yn darparu llwybr i ymarfer gwaith cymdeithasol proffesiynol, ac mae'n cynnwys modiwlau academaidd wedi'u hategu â lleoliadau ymarfer. Mae hyn yn rhoi'r sgiliau i fyfyrwyr ac yn eu paratoi i gymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol a dechrau swyddi gwaith cymdeithasol proffesiynol o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos ag awdurdodau lleol Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, sy'n cynnal ac yn darparu lleoliadau i fyfyrwyr ar y rhaglen.

GWEITHREDIADAU

Diwrnod Cymunedol Prifysgol Bangor

Bu Prifysgol Bangor cynnal eu Diwrnod Cymunedol ar ddydd Sadwrn 14 Hydref. Oedd unrhyw un yn gallu darganfod mwy am eu prifysgol leol, o'i holl hanes i'r gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud yma, i gael blas ar fywyd myfyriwr, ac i ddysgu mwy am yr holl ffyrdd yr ydym yn creu cysylltiadau â'n cymuned leol a'r byd ehangach.

Wnaeth digwyddiadau gynnwys teithiau o nifer o adeiladau, gan cynnwys y Llawr masnachu'r Ysgol Fusnes a Ffug Lys yr Ysgol Gyfraith. Oedd yna fideos ar hanes y brifysgol, sesiynau darllen dwyieithog i blant ac oedolion, a gweithdai ar arysgrifio llechi yn ein FabLab.

Wnaeth nifer o berfformiadau digwydd yn Pontio gan fyfyrwyr yr Adran Gerdd, Band Cyngerdd a Grŵp Pres a Jazz yr Undeb Myfyrwyr, Darlleniadau barddoniaeth gan amryw o feirdd ar draws ystod o ffurfiau, Darlleniadau o weithiau newydd gan Adran y Gymraeg a pherfformiad gan Grŵp Canfod y Gân, Canolfan Gerdd William Mathias.

Arddangosfa Flynyddol – Dathlu'r 140

Roedd arddangosfa flynyddol yr Archifau a Chasgliadau Arbennig, eleni, yn rhan o raglen amrywiol o ddigwyddiadau'r flwyddyn wnaeth dathlu 140 mlynedd diwethaf y sefydliad hwn. Cafwyd detholiad o enghreifftiau cynrychioliadol, sy'n dwyn atgofion i'r cof, i ddarlunio bywyd a gwaith myfyrwyr a staff ddoe a heddiw.

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Prifysgol ymhlith y llofnodwyr cyntaf i safonau cynaliadwyedd amgylcheddol newydd i ymchwilwyr

Mae Prifysgol Bangor ymhlith y garfan gyntaf o brifysgolion i lofnodi safon cynaliadwyedd newydd ar gyfer ymchwil. Mae polisi newydd Wellcome yn nodi sut y mae'n rhaid i ymchwilwyr fynd i'r afael ag effaith amgylcheddol eu gwaith, ac mae'n cyd-daro â lansio concordat cynaliadwyedd amgylcheddol gan sefydliadau ymchwil y Deyrnas Unedig.

Fe'i cyhoeddwyd yn y safon newydd y bydd y Brifysgol yn awr yn gweithio i'w mabwysiadu. Bydd Wellcome yn disgwyl i ymchwilwyr ddefnyddio'r dulliau mwyaf cynaliadwy sydd ganddynt, ac esbonio mewn ceisiadau newydd am grantiau sut y bwriadant leihau'r defnydd o ynni, ailddefnyddio offer, ac ailgylchu cynhyrchion gwastraff.

Plisgyn Cnau Coco

Nod: Sicrhau Patrymau Defnyddio a Chynhyrchu Cynaliadwy

YMCHWIL

Y Brifysgol yn rhan o ganolfan ymchwil gwerth miliynau o bunnoedd i ddatblygu ailgylchu plastig yn seiliedig ar ensymau

Mae canolfan ymchwil newydd, y cyntaf o'i fath yn y DU, yn cael ei ffurfio i ddatblygu a gwneud y mwyaf o dechnolegau yn seiliedig ar ensymau ar gyfer ailgylchu plastig ac adfer deunyddiau.

Nod y consortiwm o ymchwilwyr blaenllaw yw datblygu a gwneud y mwyaf o dechnolegau ailgylchu plastig sy'n seiliedig ar ensymau, i drosi ffrydiau gwastraff problemus yn gemegau gwerthfawr a deunyddiau newydd.

Yr arloeswyr Cymreig sy'n troi gweddillion cnau coco yn ddewis amgen ecogyfeillgar i becynnau papur

Mae cwmni o Gaerdydd a sefydlwyd gan deulu entrepreneuraidd, Woodfree Ltd, yn gweithio gyda Chanolfan Biogyfansoddion Prifysgol Bangor i droi sgil-gynnyrch o gynhyrchu cnau coco yn ddeunydd cynaliadwy sy'n ddelfrydol ar gyfer cynhyrchu ffibrau cost isel ar gyfer deunyddiau, yn cynnwys papur a deunyddiau pecynnu.

Gweledigaeth y cwmni yw lleihau'r swm helaeth o ddatgoedwigo sy'n digwydd ledled y byd er mwyn cynhyrchu'r papur a ddefnyddir ar gyfer pecynnu. Am y blynyddoedd diwethaf, mae Woodfree Ltd wedi bod yn ymchwilio i ddeunyddiau cynaliadwy nad ydynt yn bren a allai helpu, ac ar y siwrne hwn canfuwyd un a oedd yn tyfu'n helaeth, wedi'i esgeuluso, ac ar gael yn hawdd ledled y byd: plisgyn cnau coco.

Mae Woodfree Ltd nawr yn mynd â'u hymchwil i'r lefel nesaf diolch i grant 'Transformative Technologies' gan Innovate UK.

DYSGU A MYFYRWYR

Wythnos Am Wastraff

Ailddefnyddio ar Ddiwedd Blwyddyn

Bob blwyddyn mae'r myfyrwyr sy'n gadael y brifysgol yn cael eu hatgoffa i gyfrannu eitemau nad oes arnynt eu hangen megis llestri a sosbenni, er mwyn iddynt gael eu rhoi i fyfyrwyr newydd mis Medi sydd eu hangen.

Siop Swap Costau Byw

Cynhaliwyd nifer o stondinau dros dro yn Undeb y Myfyrwyr ym mis Hydref

- Ffeirio Dillad : Lleihau gwastraff, rhoi gwedd newydd i'ch cwpwrdd dillad, a dod o hyd i ddillad ffasiynol unigryw - am ddim.
- Rhoddion Am Ddim o Gynnyrch Mis-lif y Gellir eu Hailddefnyddio: Helpu i leihau gwastraff untro ac arbed arian.
- Caffi Trwsio: Gwirfoddolwyr medrus wrth law i helpu i atgyweirio ac adfer eitemau, gan arbed arian a lleihau gwastraff.

GWEITHREDIADAU

Dewch â'ch cwpan eich hun

Mae pawb yn hoff o baned i'n deffro yn y bore, ond yn y Deyrnas Unedig mae 2.5 biliwn o gwpanau coffi yn cael eu defnyddio ac yna'u taflu ymaith bob blwyddyn! Wyddech chi ym mannau arlwyo Prifysgol Bangor, os dewch chi â chwpan eich hun gyda chi, y byddant yn gostwng pris eich diod poeth gan 20c?

Does gennych chi ddim cwpan y gallwch ei hailddefnyddio? Peidiwch â phoeni! Os byddwch yn prynu cwpan o'r fath gan y tîm Arlwyo, byddwch nid yn unig yn elwa ar ostyngiad o 20c oddi ar bris pob diod yn y dyfodol (wrth ddod â'ch cwpan gyda chi), ond byddwch hefyd yn cael eich diod cyntaf am ddim.

Data Gwastraff

Yn 2023/24 llwyddodd Prifysgol Bangor i ddargyfeirio 100% o'i gwastraff. O'r gwastraff na chafodd ei yrru i safle tirlenwi cafodd 55.28% ei ailgylchu a 44.72% ei adfer. Cynhyrchwyd 737.79 tunnell o wastraff i gyd, cynnydd o 1.89% ers y flwyddyn flaenorol.



Data Gwastraff 2022/23 Prifysgol Bangor

YMCHWIL

Sut y bydd dŵr croyw o'r Arctig yn newid ein tywydd a hinsawdd?

Mae'r Arctig yn colli miloedd o dunelli o rew, sy'n llifo i foroedd yr Arctig fel dŵr croyw. Mae cydnabyddiaeth eisoes fod y dylifiad enfawr o'r dŵr croyw hwn i'r Arctig o bosib yn dyngedfennol o ran yr hinsawdd.

Gyda hyn mewn golwg, mae eigionegwyr ym Mhrifysgol Bangor yn arwain tîm ymchwil trawsiwerydd sy'n ceisio deall yn well sut y bydd dŵr croyw yn effeithio ar batrymau tywydd yn y tymor byr ac i wella modelau rhagweld yr hinsawdd i'r dyfodol. Amcan arall sydd ganddynt yw rhagfynegi newidiadau posib i haenau'r cefnfor, ac i sut mae cefnforoedd yn cylchdroi ac yn cludo gwres tua'r gogledd yn yr Iwerydd.

Coedwigoedd sy'n aildyfu'n naturiol yn helpu i amddiffyn yr hen goedwigoedd sy'n weddill yn yr Amason

Mae'r argyfwng hinsawdd a Degawd Adfer Ecosystemau'r Cenhedloedd Unedig wedi creu cryn ddiddordeb yng ngwerth coedwigoedd eilaidd. Coedwigoedd yw'r rhain sydd wedi aildyfu'n naturiol ar dir amaethyddol segur. Mae ymchwil Prifysgolion Caerhirfryn, Bangor a British Columbia wedi cynhyrchu tystiolaeth newydd o ba mor bwysig ydyn nhw i wrthweithio effeithiau darnio coedwigoedd ar draws basn yr Amason.

Nod: Gweithredu ar Frys i Frwydro yn Erbyn Newid yn yr Hinsawdd a'i Effeithiau

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Yr Athro Julia Jones yn rhannu ei harbenigedd ar ymchwiliad BBC Panorama

Oedd ymchwiliad ar gyfres Panorama mis Mai yn tynnu sylw at ddefnydd cwmnïau mawr o gredydau carbon coedwig amheus sy'n cael eu disgrifio gan ymchwilwyr fel rhai 'diwerth' er mwyn honni eu bod yn 'wyrdd'. Fel rhan o'r rhaglen, mae'r Athro mewn Gwyddor Cadwraeth, Julia Jones, yn trafod ei gwaith ymchwil ar ba mor dda y mae'r credydau hyn (sy'n anelu at leihau allyriadau o ddatgoedwigo a diraddio) yn gweithio.

Dau athro o Brifysgol Bangor wedi'u henwi'n amgylcheddwyr o'r radd flaenaf

Mae 'The ENDS Report' wedi datgelu ei 'Restr Bŵer' ddiweddaraf o'r 100 o amgylcheddwyr proffesiynol yn y Deyrnas Unedig sydd wedi cael yr effaith fwyaf yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r Athro Christian Dunn, o Ysgol Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol Prifysgol Bangor, wedi'i enwi'n un o'r gweithwyr proffesiynol amgylcheddol mwyaf dylanwadol ar y rhestr, am ei waith ar wyddor gwlyptiroedd.

Wedi'i henwi hefyd y mae'r Athro Bridget Emmett OBE, gwyddonydd ecosystem yng Nghanolfan Ecoleg a Hydroleg y Deyrnas Unedig (UKCEH), sydd hefyd yn Athro Er Anrhydedd ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Athro Emmett wedi arwain mwy nag 20 o brojectau aml-bartner sy'n mynd i'r afael â heriau brys megis yr angen am aer glanach, arferion rheoli tir mwy cynaliadwy, adfer iechyd y pridd, lliniaru newid yn yr hinsawdd yn ogystal â datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer polisi a busnes fel cyllid gwyrdd.

DYSGU A MYFYRWYR

Astudio

Mae’r modiwl Newid yn yr Hinsawdd a Gwleidyddiaeth Cyfiawnder yr Hinsawdd yn ymdrin ag ystod o bynciau megis Rhagarweiniad i Gymdeithaseg Amgylcheddol, Hanes Cymdeithaseg Amgylcheddol, Cyfalafiaeth ac ecsbloetio amgylcheddol, Gwybodaeth a Phŵer, Hunaniaeth a democratiaeth, Twf gwleidyddiaeth a symudiadau amgylcheddol, Protestiadau, Cyfraith a Chyfiawnder, Llywodraethu byd-eang a'r amgylchedd, Mudo a’r argyfwng hinsawdd, yr amgylchedd a llesiant meddyliol a chorfforol, Y Fargen werdd newydd, tuag at ddyfodol cynaliadwy.

Mae Newid yn yr hinsawdd: Gwyddoniaeth ac Effaith yn addysgu myfyrwyr am y prif dueddiadau rhanbarthol a byd-eang o ran rhagolygon hinsoddol am y dyfodol, patrymau pwysig o newid hinsawdd yn fyd-eang a rhanbarthol yn y gorffennol trwy ystod o raddfeydd amser, effaith y newid a ragwelir yn yr hinsawdd a'r dulliau arfaethedig o liniaru’r newidiadau hynny neu addasu iddynt.

Mae'r modiwl Bywyd mewn Hinsawdd sy'n Newid yn ymdrin â sut mae newid hinsawdd ac agweddau ar swoleg a bioamrywiaeth yn gysylltiedig ac yn rhyngweithio. Mae’n cynnwys y polisi cenedlaethol a rhyngwladol, ynghyd ag arferion cadwraeth a rheoli posibl sydd eu hangen i ymdopi â hinsawdd sy'n newid.

Mae Newid Hinsawdd mewn Diwylliant Cyfoes yn dechrau trwy roi gwybod i fyfyrwyr am wyddoniaeth sylfaenol newid hinsawdd, cyn troi at yr ymchwiliad canolog: ystyried sut mae testunau allweddol yn ymateb i, ac yn ymyrryd â, sut y caiff gwyddor hinsawdd ei gynrychioli mewn diwylliant cyfoes. Bydd myfyrwyr yn dysgu am y ffyrdd y mae llenyddiaeth, ffilm a’r cyfryngau yn llywio ein dealltwriaeth o newid hinsawdd, a thrwy hynny yn llywio ymateb cymdeithas – neu ddiffyg ymateb – i’r argyfwng amgylcheddol.

GWEITHREDIADAU

Rheoli Carbon

Ym mlwyddyn academaidd 2023/24 gostyngodd allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 y Brifysgol eto hyd 6,641.66 tunnell CO2e, o’i gymharu â 6,749.20 tunnell CO2e yn 2022/23 a 9,491.9 tunnell CO2e yn 2018/19, yn seiliedig ar gyfrifiadau trydan yn ôl y lleoliad.

Roedd cymhariaeth o weithgareddau Cwmpas 1 a 2 rhwng 2022/23 a 2023/24 yn dangos gostyngiad bach yn nefnydd trydan, LPG, a nwy naturiol, tra bo olew gwresogi ac aerdymheru a nwyon-F rheweiddio wedi cynyddu, yr olaf oherwydd gwelliant mewn casglu data. Eleni bu holl araeau solar y Brifysgol yn weithredol, a arweiniodd at yr allbwn uchaf ers eu gosod.

Llythrennedd Carbon i Sefydliadau yng Ngogledd Cymru

Mae M-Sparc yn cynnig hyfforddiant llythrennedd carbon yn rhaglen addysgol sydd wedi’i gynllunio i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o allyriadau carbon, newid yn yr hinsawdd, a’r effeithiau cysylltiedig.

Egni 2024: M-SParc yn cynnal cynhadledd i fynd i'r afael â heriau Net Zero

Bu 5ed Cynhadledd Egni blynyddol M-SParc yn Mai ymdrin â pholisïau allweddol sy’n effeithio ar daith y wlad tuag at sero net. Gyda’r etholiad cyffredinol wedi’i gyhoeddi’r wythnos hon, roedd yr amseriad yn berffaith ac yn rhoi cyfle i’r gynulleidfa herio’r rhai sy’n llunio polisïau a phenderfyniadau i gyflymu’r cynnydd tuag at ddyfodol cynaliadwy.

Roedd y gynhadledd yn cynnwys lleisiau o gefndiroedd amrywiol yn y sector ynni, o niwclear i lanw, yn ogystal â lefelau gwahanol o lywodraeth, gan gynnwys David TC Davies; Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Jeremy Miles; Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni, a’r Gymraeg, a Rhun ap Iorwerth; Arweinydd Plaid Cymru.

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Project cadwraeth "archarwyr y cefnfor" yn dod i'r brig yn San Steffan

Mae'r Project Wystrys Gwyllt sydd yn adfer wystrys brodorol ym Mae Conwy, wedi cipio prif wobr yn Wobr Cadwraeth Bywyd Gwyllt Prydain, am eu gwaith anhygoel.

Prifysgol Bangor yw'r partner lleol gyda'r elusen gadwriaethol ryngwladol, ZSL (Cymdeithas Sŵolegol Llundain) sydd y tu ôl i'r Project Wystrys Gwyllt, ynghyd â'i phartneriaid Blue Marine Foundation (Blue Marine) a British Marine. Maent yn dathlu buddugoliaeth i fywyd gwyllt gan iddynt ddod i'r brig o blith 21 o brojectau sy'n gweithio gyda rhywogaethau brodorol eraill ar y rhestr fer yng Ngwobrau Cadwraeth Bywyd Gwyllt Prydain. Pleidleisiodd Aelodau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi dros y Project Wystrys Gwyllt.

Nod: Diogelu a Defnyddio'r Cefnforoedd, y Moroedd ac Adnoddau'r Môr yn Gynaliadwy ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

YMCHWIL

Efallai na fydd rhywogaethau allweddol yn gallu byw mewn ecosystemau llynnoedd o fewn canrif

Llynnoedd ar ledredau is, sydd ddim yn rhewi, sydd fwyaf mewn perygl o gynhesu gormod yn ôl astudiaeth newydd a gyhoeddwyd. Gall newid yn yr hinsawdd arwain at dymereddau nad ydym wedi eu gweld o'r blaen mewn llynnoedd. Gallai hyn, yn ei dro, arwain at amodau sydd y tu hwnt i allu rhywogaethau dyfrol allweddol i oroesi, a gallai hynny ddigwydd yn y ganrif nesaf. Gallem weld yr amodau hyn yn digwydd cyn gynted ag y bydd yr hinsawdd wedi cynhesu gan 2.4°c uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol yn y lledredau is a gan 4°c yn y lledredau uwch. Mae rhagweld pryd y bydd hyn yn digwydd yn allweddol wrth ystyried unrhyw gamau y gallwn eu cymryd i warchod yr ecosystemau gwerthfawr hyn.

Mae newid yn yr hinsawdd yn disbyddu ocsigen yn y dyfnfor, ond mae'r llanw yn helpu i gadw'r cefnfor yn iach

Heb ddigon o ocsigen ar gyfer resbiradaeth, bydd pysgod yn profi'r un problemau â mynyddwyr sy'n dringo i'r copaon uchaf. Mae hyd yn oed mymryn o ddiffyg ocsigen yn golygu eu bod nhw'n swrth, byddant yn cael trafferth atgenhedlu ac ni fyddant yn tyfu fel y dylent. Dyna un rheswm pam mae diffyg ocsigen yn y dyfnfor yn broblem - ac mae newid hinsawdd yn gwaethygu'r sefyllfa. Mae Ymchwil ym Mangor yn dangos sut mae stormydd yn rhyngweithio â'r llanw yn yr haf i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gorddi'r cefnforoedd a "chymysgu" ocsigen. Mae'r cymysgu hwn yn helpu i gynnal amodau iach mewn moroedd arfordirol dyfnach o amgylch y Deyrnas Unedig ac mewn mannau eraill.

DYSGU A MYFYRWYR

Astudio

Mae'r modiwl Cadwraeth Forol a Rheoli Parthau Arfordirol yn ymdrin ag agweddau cadwraethol, cyfreithiol ac economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â rheoli'r amgylchedd morol. Mae’r modiwl wedi ei drefnu yn dair thema: Rheolaeth Integredig dros Barthau Arfordirol, Economeg Gymdeithasol, a Chyfraith Parthau Arfordirol.

Mae ein modiwl Llygredd Morol yn edrych ar fewnbynnau, ymddygiad ac effeithiau sy'n gysylltiedig â gwaredu llygredd gwastraff mewn dyfroedd arfordirol. Mae'n rhoi sylw manwl i natur llygredd a sut y caiff difrod ei asesu trwy ystyried y prif fathau o halogyddion/llygryddion, eu tarddiad, ymddygiad yr amgylchedd ac effeithiau posibl.

Mae'r radd Cadwraeth Fertebratau'r Môr MSci yn dysgu myfyrwyr amdan organebau'r môr a'u cynefinoedd, ac egwyddorion cyffredinol bioleg y môr, ecoleg, cadwraeth, ffisioleg ac ymddygiad. Mae pynciau mwy arbenigol sy'n canolbwyntio ar ecoleg a chadwraeth fertebratau môr mwy o faint, gan gynnwys siarcod a mamaliaid môr, a swyddogaeth y prif ysglyfaethwyr hynny yn ecosystem y môr. Bydd cyfleoedd hefyd i ystyried agweddau cymhwysol ar sŵoleg, megis pysgodfeydd, dyframaeth, bioleg cadwraeth ac ecodwristiaeth.

Mae ein Cwrs Maes ar Fwrdd Llong yn rhoi profiad i myfyrwyr wneud gwaith maes amlddisgyblaethol ar y môr. Cyflwynir ystod eang o offeryniaeth eigionegol a geoffisegol gan gynnwys offer ar gyfer mesur halwynedd, tymheredd, ceryntau, cloroffyl, gwaddodion mewn daliant a gwaddodion gwely'r môr. Yn ogystal, rhoddir sylw i samplu plancton, gwaddodion mewn daliant a gwaddodion gwely'r môr. Bydd y myfyrwyr yn treulio un diwrnod llawn ar y môr ar long ymchwil, yn casglu data gan ddefnyddio offeryniaeth ar fwrdd y llong ac yn casglu samplau o'r golofn ddŵr ac o wely'r môr.

GWEITHREDIADAU

Llong Ymchwil Y Prince Madog

Llong ymchwil o'r radd flaenaf yw’r Prince Madog, a gomisiynwyd gan Brifysgol Bangor gan ddefnyddio grant Cyd-gronfa Isadeiledd gwerth £3.5 miliwn. Mae'r llong yn cael ei rheoli a'i gweithredu gan O.S.Energy, ac mae’n gweithredu ers mis Gorffennaf 2001.

Mae’r Prince Madog yn galluogi gwyddonwyr môr y Deyrnas Unedig i astudio bioleg, cemeg, daeareg a ffiseg ein moroedd. Fe’i lluniwyd i gymryd hyd at ddeg o wyddonwyr ac 20 o fyfyrwyr. Mae Ysgol Gwyddorau’r Eigion ym Mangor ac adrannau prifysgolion eraill yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio’r llong hefyd fel platfform addysgu, gan hyfforddi’r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr môr.

Dros y ddau ddegawd diwethaf mae data a gasglwyd gan y Prince Madog wedi cyfrannu at ganfyddiadau gwyddonol bwysig, gan gynnwys:

- Diogelu pysgodfeydd cynaliadwy drwy asesu effaith treillio ar wely'r môr.
- Lleoli ac adnabod llongddrylliadau.
- Rhagweld tywydd a hinsawdd drwy ddatblygu technegau a mesuriadau newydd a ddefnyddir bellach yn fyd-eang.
- Cefnogi'r diwydiant ynni adnewyddadwy morol drwy asesu safleoedd posibl ar gyfer datblygu a chynnal asesiadau o welyau ac ecosystemau'r môr.
- Datblygu technegau newydd i fesur cynnwrf cefnforol a'r effaith ar gymysgu dyfroedd gwahanol yn y cefnfor.
- Asesu effaith yr amgylchedd ffisegol ar egni fforio adar môr a goblygiadau hynny ar lwyddiant bridio.



Y Llong Ymchwil Prince Madog

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Planhigyn diflanedig yn dychwelyd i Eryri wedi 62 mlynedd

Mae planhigyn mynydd hardd arferai lynu ar glogwyni yn Eryri wedi'i ailgyflwyno'n llwyddiannus i'r gwyllt yng Nghymru wedi iddo fod yn ddiflanedig ers 1962.

Mae'r ailgyflwyno llwyddiannus wedi ei arwain gan y botanegydd o Plantlife, Robbie Blackhall-Miles, sydd yn ddarlithydd anrhydeddus yma ym Mhrifysgol Bangor ac yn Swyddog Prosiect i Plantlife. Mae'r treial ailgyflwyno hwn o'r Tormaen Crymddail (Saxifraga rosacea), sydd wedi cymeryd degawdau i'w gynllunio, yn fuddugoliaeth i Plantlife a'u partneriaid – Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Tormaen Crymddail - Credyd_ Llyr Hughes

Nod: Amddiffyn, Adfer a Hyrwyddo Defnydd Cynaliadwy o Ecosystemau Daearol, Rheoli Coedwigoedd yn Gynaliadwy, Brwydro yn erbyn Diffeithdiro, Atal a Gwrthdroi Diraddio Tir, ac Atal Colli Bioamrywiaeth

YMCHWIL

Datgelu dull newydd o ganfod rhywogaethau ffwng byd-eang

Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Bangor, mewn cydweithrediad ag ymchwilwyr ym Mhrifysgol Jyväskylä, y Ffindir, wedi adrodd bod yr allwedd i fapio bioamrywiaeth yn gyflym ac yn gost-effeithiol wedi bod o flaen ein llygaid, ar hyd yr adeg, yn yr aer o'n cwmpas. Mae'r tîm yn argyhoeddedig y bydd technegau samplu bioamrywiaeth newydd o'r fath yn chwyldroi biomonitro a rhagolygon bioamrywiaeth yn y blynyddoedd i ddod.

Ymchwil newydd yn dangos fod maint y goedwig drofannol sy'n cael ei cholli yn sgil twf yn y fasnach rwber yn fwy sylweddol nag y credwyd

Canfu ymchwil diweddar ei bod yn bosibl bod dros 4 miliwn hectar o orchudd coed wedi'i glirio i wneud lle i blanhigfeydd rwber ers y 1990au, sydd yn llawer mwy nag amcangyfrifon blaenorol.

Arbenigwyr yn rhagweld 'methiant ecosystemau trychinebus' yng nghoedwigoedd y DU o fewn yr 50 mlynedd nesaf

Mae Athro Prifysgol Bangor, yn rhan o dîm o arbenigwyr o bob rhan o Ewrop sydd wedi llunio rhestr o 15 o ystyriaethau sy'n cael eu hanwybyddu'n aml, ac ystyriaethau newydd, sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar goedwigoedd y DU dros yr 50 mlynedd nesaf. Dyma'r ymarfer cyntaf i 'sganio'r gorwel' o ran sefyllfa coedwigoedd y Deyrnas Unedig.

DYSGU A MYFYRWYR

Cronfa Bangor yn cefnogi Gardd Llesiant Neuadd Rathbone

Cafodd y Gwasanaethau Myfyrwyr grant o £6,000 gan Gronfa Bangor, a weinyddir gan y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr, i ddatblygu man agored a chroesawgar y tu allan i Neuadd Rathbone.

Mae'r tîm wedi defnyddio'r cyllid i greu gofod sy'n annog myfyrwyr i gynnal a datblygu iechyd meddwl cadarnhaol wrth ymgysylltu â'r 5 Ffordd at Lesiant, sef Cysylltiad, Bod yn Egnïol, Bod yn Sylwgar, Dal ati i Ddysgu a Rhoi. Mae grwpiau o fyfyrwyr wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu elfennau o'r ardd. Yn ystod y digwyddiad cyntaf plannwyd bron i 2,000 o fylbiau gwanwynol, gan gynnwys eirlysiau, cennin Pedr, tiwlipau a chlychau'r gog. Nid oedd gan lawer o'r myfyrwyr unrhyw brofiad blaenorol o arddio ac, er gwaethaf y gwynt a'r glaw, roedd presenoldeb ac adborth y myfyrwyr yn wych.

Prifysgol Bangor yn gartref i ganolfan newydd i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr amgylcheddol

Mae Prifysgol Bangor wedi'i henwi'n bartner mewn un o bedair Canolfan Hyfforddiant Doethurol newydd i hybu arbenigedd y DU mewn atal llifogydd, adfer gwlyptiroedd, mwynau critigol ac ansawdd dŵr croyw.

Bydd y canolfannau a ariennir gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) yn addysgu'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr PhD a fydd yn mynd ymlaen i adeiladu gyrfaoedd mewn ymchwil, busnes a gwasanaeth cyhoeddus. Bydd pob canolfan yn cael cymorth o £2.6 miliwn.

Mae Prifysgol Bangor yn un o bum partner sy'n gartref i'r Ganolfan Hyfforddiant Doethurol mewn Systemau Dŵr Digidol Amser Real ar gyfer Diogelu Iechyd yr Amgylchedd (RED-ALERT CDT), dan arweiniad Prifysgol Caerfaddon.

GWEITHREDIADAU

Gardd sydd wedi ennill gwobr aur yn sioe flodau Chelsea i gael ei lleoli yng Ngardd Fotaneg Treborth wedi'r sioe

Bydd gardd sydd wedi derbyn y Wobr Gorau yn y Categori a Medal Aur yn Sioe Flodau byd-enwog RHS Chelsea yn fis Mai yn cael ei symud i Ardd Fotaneg Treborth Prifysgol Bangor, dafliad carreg o'r Fenai, dros yr haf.

Mae stiwdio dylunio gerddi yn Eryri, Studio Bristow, yn arddangos yr ardd hudolus a bioamrywiol 'Popeth am Blanhigion/All About Plants' yn Sioe Flodau Chelsea yr RHS 2024, mewn cydweithrediad â'r elusen newid hinsawdd, Maint Cymru. Cefnogir yr ardd gan 'Project Giving Back', elusen sy'n rhoi grantiau unigryw sy'n cefnogi gerddi at achosion da yn RHS Chelsea. Nod y dyluniad yw dod â bioamrywiaeth gyfoethog bywyd planhigion mewn coedwigoedd trofannol i'r amlwg, a thalu sylw i ganlyniadau dinistriol datgoedwigo.

CGC Gerddi Agored i Elusen

Yn fis Medi agorodd Gardd Fotaneg Treborth fel rhan o'r Cynllun Gerddi Cenedlaethol (NGS), i gefnogi elusennau'r NGS, gan gynnwys The Queen's Nursing Institute, Macmillan Cancer Support, Marie Curie, Carers Trust, Hospice UK, Perennial a Parkinson's.

Oedd planhigion ar werth a the a chacennau cartref. Oedd y tai gwydr yn agored gyda staff wrth law i ateb unrhyw gwestiynau botanegol.

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Datblygu safonau polisi rhyngwladol ar gyfer 'empathi awtomataidd' gan ddeallusrwydd artiffisial

Gellir disgrifio un maes o'r 'genhedlaeth nesaf' o raglenni deallusrwydd artiffisial fel systemau 'empathi awtomataidd'. Mae'r rhaglenni hyn yn defnyddio deallusrwydd artiffisial i ymateb yn briodol i seicoleg ac emosiynau dynol canfyddedig.
Ond daw llu o gwestiynau moesegol ac ymarferol yn sgil datblygiadau o'r fath. A fydd deallusrwydd artiffisial yn deall gwahaniaethau cynnil o ran diwylliant, hil neu rywedd? Sut gallwn sicrhau bod anghenion unigolion yn cael ymateb priodol? Sut gallwn sicrhau bod 'partneriaid deallusrwydd artiffisial' yn cael eu rhaglennu i wasanaethu ein buddiannau ni yn hytrach na buddiannau rhywun arall? A yw'r gyfraith gyfredol yn gwneud gwaith digon da o ddiogelu cymdeithas a chaniatáu i ni fwynhau manteision technolegau newydd?

Mae prosiect ymchwil ym Mhrifysgol Bangor, yn penodol i ddeall yn feirniadol oblygiadau partneriaeth rhwng pobl a deallusrwydd artiffisial ac i ddatblygu safonau technegol a safonau llywodraethu byd-eang ar gyfer empathi efelychiedig a phartneriaethau rhwng pobl a deallusrwydd artiffisial.

Nod: Hyrwyddo cymdeithasau heddychlon a chynhwysol ar gyfer datblygu cynaliadwy, darparu mynediad at gyfiawnder i bawb ac adeiladu sefydliadau effeithiol, atebol a chynhwysol ar bob lefel

YMCHWIL

Mae cysylltiadau gwleidyddion yn gwella cyfraddau credyd gwlad

Oeddech chi'n gwybod y gallai penodi Gweinidog Cyllid sydd â chysylltiadau da wella statws credyd eich gwlad? Felly dywed arbenigwyr cyllid ym mhrifysgolion Bangor, Caergrawnt, East Anglia a Herriot Watt.

Datgelir y canfyddiadau yn yr astudiaeth gyntaf i edrych ar effaith cysylltiadau gwleidyddol ar ansawdd cyfraddau sofran. Dangosodd eu hastudiaeth o 38 Gweinidog Cyllid a lefelau statws credyd eu gwledydd dros gyfnod o ddeunaw mlynedd bod cysylltiadau proffesiynol rhwng gweinidogion cyllid a phrif weithredwyr y tair asiantaeth sgorio credyd mwyaf (Fitch, Moody's ac S&P) yn arwain at y gwledydd hynny'n derbyn statws credyd uwch. Mae'r gwaith hefyd yn datgelu bod gan elfen oddrychol y cyfraddau, a fesurwyd drwy gyfrwng cysylltiadau proffesiynol rhwng gwleidyddion a swyddogion gweithredol y prif asiantaethau sgorio credyd, rôl fwy amlwg mewn gwledydd sy'n datblygu na gwledydd datblygedig.

Gallai pwerau prawf datganoledig a 'dull cryfach seiliedig ar dystiolaeth' wella diogelwch cymunedol a chyfiawnder cymdeithasol

Mae grŵp o academyddion o brifysgolion Cymru, ynghyd â swyddogion a chyn-swyddogion prawf, wedi cyhoeddi syniadau ar ddyfodol y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru. Mae'r grŵp yn tynnu sylw at rôl bwysig y gymuned a dedfrydau cymunedol, i hyrwyddo adsefydlu effeithiol a diogelwch dioddefwyr.

DYSGU A MYFYRWYR

Myfyrwyr Bangor yn derbyn Gwobr Heddychwyr Ifanc

Mae wyth myfyriwr ac un cyn-fyfyriwr sydd bellach yn athrawes wedi ennill Gwobr Heddychwyr Ifanc yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen.

Datblygwyd yr adnoddau gan grŵp Prifysgol Bangor ar gyfer yr elusen a ym Mhrifysgol Bangor, Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, sy'n cefnogi athrawon a myfyrwyr wrth iddynt ymwneud ag Addysg Grefyddol, Gwerthoedd a Moeseg a'r Dyniaethau ar draws Cyfnodau Allweddol 3, 4 a 5. Mae'r adnoddau'n cynnwys gwersi am ryfel a heddwch, bwlio, crefydd a gwrthdaro, jihad, symbolau heddwch, Deiseb Heddwch Merched, a Henry Richard: Apostol Tangnefedd, ymhlith pynciau eraill.

Prifysgol Bangor yn defnyddio VR i roi cipolwg gwerthfawr i fyfyrwyr ar reolaeth orfodol

Mae myfyrwyr Troseddeg, swyddogion heddlu dan hyfforddiant ac unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaethau cymdeithasol yn cael cipolwg gwerthfawr ar natur lechwraidd 'rheolaeth drwy orfodaeth' (coercive control) mewn sesiwn hyfforddi ymdrochol sy'n defnyddio clustffonau rhith-realiti ym Mhrifysgol Bangor.

Yn ystod y sesiwn, rhoddir cyfranogwyr yn uniongyrchol yn esgidiau dioddefwyr rheolaeth orfodol. Trwy wisgo clustffonau VR, maent yn mynd i mewn i nifer o senarios sy'n dangos arwyddion mwy cynnil o reolaeth orfodol, ond yn bwysicach fyth, maen nhw'n teimlo sut brofiad yw sefyllfaoedd lle mae ymddygiad o 'lovebombing', 'gaslighting' a 'stonewalling' yn rhan o fywyd bob dydd. Mae myfyrwyr yn ymweld â realiti VR dros dro lle mae'r cyflawnwyr yn rheoli cyllid, ffonau symudol a meddyginiaethau, gan reoli beth mae eu dioddefwyr yn ei wisgo a phwy maen nhw'n ei weld neu beth maen nhw'n ei wneud o ddydd i ddydd.

GWEITHREDIADAU

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi ei hadroddiad blynyddol sefydliadol a'i datganiad ariannol bob blwyddyn.

Ymgysylltiad gyda Rhanddeiliaid

Ers sefydlu'r Brifysgol yn 1884, rydym yn ymwybodol o'r cysylltiad arbennig rhwng y sefydliad a'r ardal yr ydym wedi'n lleoli ynddi. Mae ein Strategaeth Ymgysylltiad Dinesig newydd yn amlinellu sut y byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn dod o dan dair thema ymbarél.

- Nodi a mynd i'r afael â 'heriau mawr' (e.e. iechyd, hinsawdd, yr iaith Gymraeg, tai, tlodi, poblogaeth sy'n heneiddio)
- Galluogi arloesi a chyfleoedd economaidd
- Gwella ansawdd bywyd a rhannu gwybodaeth trwy ymgysylltu cymdeithasol a chyhoeddus

Trwy bartneriaethau a chydweithio, ceisiwn gyfrannu at les economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol ein hardal.

Cyflwynwyd y Bwrdd Cymunedol yn 2022 ac mae'n disodli'r hen Grŵp Cyswllt (Grŵp Cyswllt Prifysgol Bangor). Mae'r Bwrdd yn ffordd bwysig o gysylltu'r brifysgol â'n cymunedau, i drafod meysydd ar gyfer cydweithio ac i gydweithio ar faterion o ddiddordeb cyffredin, ac i ddatblygu ein cysylltiadau dinesig (a elwir hefyd yn genhadaeth ddinesig). Mae'r Bwrdd yn darparu llwyfan i drafod nodau strategol y brifysgol a sut y gall weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i wella lles cymunedau ar draws gogledd Cymru.

YMCHWIL

Sut y bydd galw cynyddol am gig a llaeth yn cael effaith amgylcheddol ar ffermydd ucheldir Kenya

Mae arbenigwyr ym Mhrifysgol Bangor ar fin gweithio gyda thyddynwyr yn ucheldiroedd Kenya i asesu effeithlonrwydd eu harferion pori ac effaith yr arferion hynny ar yr amgylchedd. Mae'r mwyafrif o ffermydd ucheldiroedd Kenya yn dyddynnod, lle mae porfa yn cyfrif rhwng 53% a 100% o ffynhonnell bwyd anifeiliaid.
Ychydig a ddeellir am sut mae'r ffermwyr pwysig hyn yn rheoli eu porfa, na sut mae hynny'n effeithio ar fioamrywiaeth neu wytnwch hinsawdd, allyriadau nwyon tŷ gwydr neu gynhyrchiant da byw. Gan weithio gyda'r tyddynwyr eu hunain, a phartneriaid yn ILRI (Y Sefydliad Ymchwil Da Byw Rhyngwladol), Prifysgol Eldoret ac Amgueddfa Byd Natur Kenya, bydd yr ymchwilwyr yn ymchwilio i sut mae rheoli porfa yn cyfrannu at fioamrywiaeth yn y tyddynnod hyn.

Ymchwilwyr Prifysgol Bangor wedi eu rhestru ymysg 1% ucha'r byd

Mae pedwar ymchwilydd ym Mhrifysgol Bangor, Yr Athrawon Jane Noyes, Karen Hughes, Davey L Jones a Mark A Bellis, wedi eu rhestru ymysg yr ymchwilwyr sy'n cael eu dyfynnu'n fwyaf aml, gan eu gosod ymysg yr 1% mwyaf blaenllaw yn fyd-eang.

Nod: Cryfhau'r dulliau gweithredu ac adfywio'r bartneriaeth fyd-eang ar gyfer datblygu cynaliadwy

YMGYSYLLTU CYHOEDDUS

Sut adfer amgylcheddau sydd diraddedig

Mae cymunedau'n fyd-eang yn sylweddoli bod angen adfer amgylcheddau diraddedig, ond dim ond ychydig o wybodaeth neu ganllawiau ymarferol sydd ar gael ynglŷn â'r ffordd orau o wneud hyn.

Mae Prifysgol Bangor wedi ymuno a rhaglen ymchwil 16 partner a gyllidir gan Ewrop yn gweithio gyda chymunedau o Sweden a'r Ffindir i'r DRC a Tanzania i ymchwilio i weld sut gall adfer effeithio ar y risg o ledaenu heintiau, ond hefyd i alluogi cymunedau lleol i gymryd rhan mewn projectau adfer a phennu eu blaenoriaethau eu hunain. Bydd y gwaith yn arwain at bolisïau a chanllawiau adfer cliriach y bydd modd eu dilyn mewn unrhyw dirwedd dymherus neu drofannol.

Byddai credydau carbon yn galluogi adfer morfeydd heli'r Deyrnas Unedig

Yn ôl astudiaeth a arweiniwyd gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg y Deyrnas Unedig a Phrifysgol Bangor, byddai'n ymarferol cyflwyno cynllun credyd carbon, sy'n galluogi cwmnïau i fuddsoddi yn y gwaith o adfer morfeydd heli diraddiedig y Deyrnas Unedig a gwrthbwyso eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn wirfoddol. Bu i bartneriaeth o wyddonwyr, elusennau ac arbenigwyr ariannol ymchwilio i ddichonoldeb Cod Carbon Morfeydd Heli, yn debyg i'r codau Mawndiroedd a Choetiroedd presennol, a fyddai'n creu safon ardystio wirfoddol drylwyr a seiliedig ar wyddoniaeth ar gyfer carbon morfeydd heli, i'w farchnata a'i fasnachu gan gwmnïau'r DU. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i brynwyr credydau carbon bod y buddion hinsawdd sy'n cael eu gwerthu yn rhai real, mesuradwy, ychwanegol a pharhaol.

DYSGU A MYFYRWYR

Gwobrau'r Uchel Siryf i wirfoddolwyr

Cyflwynwyd y wobr hon yn 2007 pan oedd yr Uchel Siryf ar y pryd ac Aelod o Gyngor y Brifysgol, Dr. Dewi Roberts, a'i ddiweddar wraig, Dr. Sheila Roberts, am wobrwyo a chydnabod y cyfraniad y mae myfyrwyr Prifysgol Bangor yn ei wneud i'r gymuned leol trwy waith gwirfoddol.

Yn Ebrill, dyfarnwyd tair gwobr unigol ynghyd â chydnabyddiaeth arbennig i 4 project. Enillwyr y gwobrau unigol oedd Malaak Al Lawati, Ben Chandler, a Nicolas Perrott. Gwobrwywyd pob un am eu cyfraniadau rhagorol fel gwirfoddolwyr. Rhoddwyd cydnabyddiaeth arbennig i 4 project gan gynnwys Y Project Prydau Poeth, Afonydd Menai, Caffi Trwsio, a’r Gerddi Iachau. Mae'r holl brojectau hyn wedi bod yn rhan ganolog o'r gymuned.

Wythnos Gwirfoddoli Myfyrwyr

Ym mis Chwefror, gweithiodd gwirfoddolwyr ar y cyd â phroject Bryn Ifan, gan weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, i blannu 2205 o goed yn eu gwarchodfa ym Mhenrhyn Llŷn. Ymunodd 45 o wirfoddolwyr yn ymdrech i lanhau traethau ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru ym Miwmares, gan gasglu llond 10 bag o sbwriel.

Buodd rhywfaint o’n myfyrwyr yn cefnogi’r ymgyrch, gan gynnwys myfyrwyr sy’n gwirfoddoli gyda phrojectau ‘Clwb Cadwraeth Dŵr Croyw’ a ‘Glanhau Traethau’ yn ogystal â myfyrwyr o’r Gymdeithas Theatr Gerdd. Daethpwyd â 42 o eitemau i'r Caffi Trwsio, a gwnaethpwyd diagnosis ar 10 ohonynt a chafodd 26 eu trwsio. Daeth y Grŵp Codi Arian a Rhoi a’r Project Cŵn Tywys at ei gilydd i gyflwyno cwis tafarn ac i godi arian at elusen. Bu’r Projectau Llesiant, Cyswllt a Chyfeillion Lles hefyd cyflwyno diwrnod llwyddiannus yn Sw Mynydd Cymru i fyfyrwyr dod i gyswllt â phobl eraill â byd natur.

GWEITHREDIADAU

Gweithio Mewn Partneriaeth

Mae gan Brifysgol Bangor traddodiad llwyddiannus o gydweithio gyda busnesau a'r gymuned. Rydyn ni'n ymroi i'n rôl hanfodol ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yr ardal. Rydyn ni'n anelu at archwilio'r posibiliadau o gydweithio gyda sefydliadau a phartneriaid yng Nghymru, Prydain a dros y môr gyda'r bwriad i gryfhau a chynyddu llwyddiant ein haddysgu a'n gwaith ymchwil.

Mae Ysgol Busnes Bangor yn gweithio gyda phartneriaeth leol a phartneriaethau byd-eang, gan gynnwys Partneriaethau Polisi a Llywodraethau, Busnesau, Elusennau ac Addysg. Ein hamcan yw ehangu'r profiad dysgu mae myfyrwyr yn ei chael yma yn yr ysgol a sicrhau bod busnesau yn cael mynediad tua at ymchwil o safon ac arbenigedd ein hacademyddion. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a sectorau trydydd parti.

£5 miliwn o gyllid i fynd i’r afael â heriau sy’n wynebu cymunedau gwledig Cymru

Mae partneriaeth yn cynnwys Prifysgol Bangor wedi derbyn dros £5 miliwn o gyllid i ymchwilio ac archwilio atebion i heriau gwledig. Mae ‘Cymru Wledig LPIP Rural Wales’ yn cysylltu ymchwilwyr, cymunedau, a llunwyr polisi i gefnogi datblygiad cynhwysol, cynaliadwy i gefnogi polisïau effeithiol i feithrin ‘economi lles’.

Myfyrwyr o Brifysgol Bangor yn gwirfoddoli i lanhau traethau yn ystod mis Chwefror